

Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26

Dyddiad: 06 Awst 2025
Cyfeirnod: Medr/2025/06

At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch
Penaethiaid colegau addysg bellach
Cyfarwyddwyr Addysg
Penaethiaid Chweched Dosbarth Ysgolion
Arweinwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned Awdurdodau Lleol
Deiliaid Contractau Prentisiaeth

Rhagor o wybodaeth:

Enw: Geoff Hicks
E-bost: BuddsoddiadAMonitro@medr.cymru

Enw: Hannah Falvey
E-bost: ystadegauAU@medr.cymru

Crynodeb:

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dangos sut y dosberthir cyllid cyffredinol Medr ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2025/26 gan gynnwys dyraniadau sefydliadol unigol ar gyfer holl gyllid craidd addysg drydyddol.

Cynnwys	Rhif tudalen yn y cyhoeddiad	Cyfeirnodau ychwanegol
Cyflwyniad	1	
Cynnwys	2	
Dosbarthiad cyffredinol y gyllideb - Cyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 - Tarddiad cyllideb blwyddyn academiaidd 2025/26 - Dyraniad cyllideb y flwyddyn ariannol - Cyfanswm y dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26	3 3 4 4 5	
Dyraniadau craidd: Darpariaeth prentisiaeth - Crynodeb o'r defnydd o'r gyllideb prentisiaethau clustnodedig - Contract prentisiaethau - Ymrwymiad disgwylidig sy'n weddill o gontract prentisiaethau blwyddyn academiaidd 2024/25 - Staff a gyllidir gan y rhaglen - Prentisiaethau gradd - Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr - Datblygiadau prentisiaethau - Ymrwymiad contract prentisiaethau 2025/26	6 6 7 8 8 8 8 9 10	
Dyraniadau craidd: Darpariaeth Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol - Cyfradd fesul uned - Dyraniad 16 mis (blwyddyn yn unig) - Ymrwymiad chweched dosbarth awdurdodau lleol 2025/26	10 11 12 13	Atodiad LA
Dyraniadau craidd: Darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) Awdurdodau Lleol - Cyfradd fesul uned - Darpariaeth ACL yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Dyraniad 16 mis (blwyddyn yn unig) - Ymrwymiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned Blwyddyn Academiaidd 2025/26	13 15 15 15 16	
Dyraniadau craidd: Darpariaeth addysg bellach (llawnamser, rhan-amser, Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chronfeydd Wrth Gefn Ariannol) - Darpariaeth addysg bellach (llawnamser, rhan-amser) - Cyllid llawnamser - Cynnydd i'r Gyfradd fesul Uned - Cyllid Rhan-amser - Addysg bellach (Cymorth Dysgu Ychwanegol) - Addysg bellach (Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn) - Addysg bellach (Cronfa Urddas Mislif) - Prentisiaethau lau - Ymrwymiad addysg bellach 2025/26 - Cyllid wedi'i ddal yn ôl er mwyn cynyddu cyfranogiad	16 16 16 17 17 18 19 20 21 22 22	Atodiad FE

Dyraniadau craidd: darpariaeth addysg uwch	22	Tablau H1 i H5 Atodiadau H-A i H-C
- Dyrannu cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi - Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd (QR) - Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd (PGR) - Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) - Dyrannu cyllid ar gyfer addysgu - Cyllid premiwm – darpariaeth gradd amser llawn - Cyllid addysgu ar sail credydau - darpariaeth gradd ran-amser - Cyllid premiwm – darpariaeth gradd ran-amser - Cyllid premiwm - pob dull a lefel - Cyllid fesul pen – pob dull a lefel a addysgir - Dyraniadau cyllid addysgu cyffredinol - Cynllun hepgor ffioedd rhan-amser - Cymhariaeth o gyllid AU o'r naill flwyddyn i'r nesaf - Cyllid strategol y Brifysgol Agored yng Nghymru - Cyllid elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD) - Dyraniadau cyllid ymchwil ac addysgu cyffredinol - Lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol - Cyllidebau strategol - Mynediad a llesiant - Cyflogadwyedd a sgiliau - Ymchwil ac arloesi - Y dysgwr a'r gweithlu - Data a thechnoleg - Datblygiadau strategol Medr	23 23 23 24 25 26 26 27 28 28 29 29 29 29 29 30 30 30 32 32 33 34 35 36 36	
Telerau a thaliadau'r grant a ffynonellau data	37	
- Telerau'r grant - Ffynonellau data - Talu grant	37 38 39	
Tablau cryn ac atodiadau	40	

Cyflwyniad

1. Derbyniodd y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#) Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022. Yn sgil y Ddeddf sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a adwaenir fel Medr, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoleiddio a chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru. Daeth Medr yn weithredol o 1 Awst 2024. Y cyhoeddiad hwn yw'r cyhoeddiad cyntaf o'i fath o ran y gyllideb a chyllido, gan gynnwys yr holl sectorau trydyddol a'r cyllid a ddarperir gan Medr.
2. Cyhoeddodd Medr ei [Gynllun Strategol](#) cyntaf ar 12 Mawrth 2025, yn esbonio ei uchelgeisiau ar gyfer addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Cyflwynir yr uchelgeisiau hyn mewn ymrwymadau sylfaenol i'w cyflawni o fewn dwy flynedd, ac ymrwymadau ar gyfer twf i'w cyflawni o fewn pum mlynedd. Mae'r cyllid a gyhoeddir yn y cyhoeddiad hwn wedi'i osod yng nghyd-destun yr ymrwymadau hynny a phwysigrwydd creu sefydlogrwydd i ddarparwyr yn ystod newid i'r oruchwyliaeth dros addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
3. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi ein cyllid cyffredinol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a gyllidir gan Medr yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys dyraniadau darparwyr unigol ar gyfer yr holl gyllid craidd a rhai cyllidebau strategol lle bônt ar gael.
4. Ar hyn o bryd mae Medr yn cyllido addysg bellach (AB) ar ran Llywodraeth Cymru drwy [gytundeb asiantaeth](#) a gyhoeddwyd o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Medr yn dyrannu cyllid drwy'r pwerau hyn i sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, awdurdodau lleol a darparwyr prentisiaethau dan gontract.
5. Mae Medr yn gweinyddu ei gyllid ar gyfer addysg uwch (AU) yn seiliedig ar bwerau a nodir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, sy'n pennu natur y gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Y gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cyllid yw'r rhai a gyflawnir gan sefydliadau addysg uwch yn bennaf. Mae rhywfaint o gyllid addysg uwch yn cael ei ddyrannu i sefydliadau addysg bellach, ond dim ond ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch rhagnodedig y gall Medr ddyrannu'r cyllid hwn.
6. Bydd y cytundeb asiantaeth a'r pwerau a nodir uchod yn parhau nes bo'r pwerau cyllido a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn cael eu gweithredu.
7. Ar wahân i hyn, rydym yn rheoleiddio sefydliadau a chanddynt Gynlluniau Mynediad a Ffioedd cymeradwy o dan bwerau a nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Yn sgil cael eu rheoleiddio, bydd cyrsiau gradd ac ôl-radd sefydliadau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Ar gyfer cyrsiau nad ydynt wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, rydym yn gweinyddu proses sy'n galluogi darparwyr i ddynodi cyrsiau fesul achos. **Nid yw'r** ddwy broses hon sy'n arwain at ddynodi cyrsiau gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'n swyddogaethau i ddarparu cyllid i sefydliadau. Gan hynny, ni fydd cael eu rheoleiddio na chael cyrsiau wedi'u dynodi yn golygu y bydd darparwyr yn derbyn y cyllid a weinyddir gennym ac sydd wedi'i nodi ar ffurf dyraniadau yn y cyhoeddiad hwn.

8. Ar gyfer prifysgolion yng Nghymru a darparwyr eraill yng Nghymru sy'n derbyn cyllid craidd AU, nid yw cyllid Medr yn cynnwys taliadau ar gyfer benthyciadau a grantiau ffioedd dysgu na thaliadau cymorth eraill i fyfyrwyr. Gweinyddir y rhain gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Nid yw darparwyr prentisiaethau, colegau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn derbyn ffioedd dysgu ac eithrio ar gyfer darpariaeth AU. Y cyllid craidd a ddyrennir gan Medr sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'u hincwm.
9. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i Medr yn flynyddol ar sail blwyddyn ariannol o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Mae Medr yn dyrannu cyllid i'r rhan fwyaf o sefydliadau a darparwyr cymwys ar sail blwyddyn academiaidd o 1 Awst i 31 Gorffennaf. Rydym yn defnyddio'r fformat hwn: 2025-26, i ddynodi'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2026, a'r fformat hwn: 2025/26, i ddynodi'r flwyddyn academiaidd hyd at 31 Gorffennaf 2026.
10. Yn y dyfodol bydd Medr yn ymgynghori ar bolisi cyllido a fydd yn nodi egwyddorion ar gyfer cyllido addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei lywio gan y gofrestr addysg uwch newydd, lle na fydd ond y rhai yng nghategori craidd y gofrestr yn gymwys i dderbyn cyllid addysg uwch ac ymchwil ac arloesi. Bydd y polisi hefyd yn ystyried ein dyletswyddau strategol.

Cynnwys

11. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cwmpasu pob elfen o'n dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 ym mis Mawrth 2025. Derbyniwyd y [llythyr cyllido](#) cyfatebol ym mis Mawrth 2025.
12. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys yr holl grantiau craidd sy'n seiliedig ar fformiwla. Lle bo modd, mae grantiau a ddyrennir drwy gyllidebau strategol, a all fod yn amodol ar ddarparu cynllun neu strategaeth gwariant benodol, hefyd wedi'u cynnwys.
13. Caiff manylion dyrannu cyfalaf ar gyfer sefydliadau AU¹ eu cyhoeddi ar wahân, yn ogystal â dyraniadau cyllid ar gyfer mentrau addysg drydyddol strategol fel llesiant ac iechyd meddwl a chymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu. Er tryloywder, caiff y dyraniadau hyn eu cyfleu drwy gyhoeddiadau ar wahân.

¹ Darperir cyllid cyfalaf ar gyfer yr ystâd AB yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen cymunedau cynaliadwy.

Dosbarthiad cyffredinol y gyllideb

Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2025-26

14. Cwblhawyd cyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Dyma ddyraniad cyllideb cyntaf Medr ar gyfer blwyddyn ariannol lawn, felly ni cheir cymhariaeth â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ein bwriad yw rhoi cymariaethau â'r blynyddoedd ariannol cynt yn y cyhoeddiadau nesaf.
15. Darperir cymariaethau â blynyddoedd academiaidd mewn tablau dilynol.

Maes cyllideb	Cyllideb adnoddau net £
Addysg	804,081,000
Eitemau clustnodedig sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb addysg uchod:	
Prentisiaethau iau 14-16	600,000
Hyrwyddwyr Menter mewn AB	360,000
Cyllideb prentisiaethau clustnodedig	143,277,000
Cyllideb refeniw net:	948,318,000
Anariannol (dibrisiant)	437,000
Cyllideb adnoddau	948,755,000
Cyfalaf addysg uwch	10,000,000
Cyfalaf digidol addysg bellach	3,000,000
Cyfalaf gweithredu Medr	500,000
Cyllideb cyfalaf	13,500,000
Cyfanswm cyllideb adnoddau a chyfalaf:	962,255,000
Addasiadau cymorth grant:	
Llai'r dyraniad anariannol (dibrisiant)	(437,000)
Cyfanswm cymorth grant (arian)	961,818,000

Tarddiad cyllideb blwyddyn academiaidd 2025/26

16. Wrth ddefnyddio cyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 dylid nodi bod dyraniadau i ddarparwyr addysg drydyddol ac ymchwil yn cael eu dyrannu'n bennaf ar sail blwyddyn academiaidd. Gan hynny, mae'n rhaid i gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 roi cyfrif yn gyntaf am y gofyniad arian parod hysbys i dalu am weddill ymrwymadau cyllido blwyddyn academiaidd 2024/25 (o 1 Ebrill i 31 Gorffennaf 2025) a osodwyd ar gyllideb Medr drwy benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).
17. Yn yr un modd, wrth gytuno ar ddyraniadau blwyddyn academiaidd 2025/26, bydd ymrwymiad tebyg yn cael ei osod ar gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27, nad yw eto wedi'i phennu gan Lywodraeth Cymru.
18. Ni fanylir ar wahân ar gostau gweithredu Medr yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cyn i ddyraniadau'r flwyddyn academiaidd gael eu pennu, caiff costau gweithredu rhagamcannol Medr eu didynnu.
19. Mae rhai llinellau cyllido wedi'u clustnodi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgarwch penodol yn uniongyrchol. Ym flwyddyn ariannol 2025-26 clustnodir £143,277,000 o gyllid darparu prentisiaethau, £600,000 o gyllid darparu prentisiaethau iau a £360,000 o gyllid Hyrwyddwyr Menter mewn AB.
20. Wrth ddefnyddio ei gyllideb, mae Bwrdd Medr wedi ystyried canllawiau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru fel y'u crynhoir yn y ddogfen gyhoeddedig [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26](#). Cymerwyd yr ystyriaethau hyn ochr yn ochr ag adborth gan randdeiliaid a'r cynllun strategol a gyhoeddwyd gennym wedi hynny, a nodai fod angen sefydlogrwydd o ran cyllid yn ein blynyddoedd cynnar o weithredu.

Dyraniad cyllideb y flwyddyn ariannol

21. Mae'r dyraniad yn cyflwyno cyllideb sy'n cynnwys yr holl gyllid yr ydym yn disgwyl ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar adeg cyhoeddi.

	£ miliwn
Gofyniad arian parod i fodloni ymrwymadau dyraniadau blwyddyn academiaidd 2024/25 fel y cytunwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch	159.410
Gofyniad arian parod i fodloni ymrwymadau dyraniadau blwyddyn academiaidd 2024/25 fel y cytunwyd gan Gyngor CCAUC	68.805
Cyllideb gweithredu *	16.128
Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau	143.277
Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau iau	0.600
Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer hyrwyddwyr menter mewn addysg bellach	0.360
Cyllidebau craidd	531.967
Cyllidebau strategol	29.333
Cyllidebau cyfalaf	13.500
Cyfanswm	963.380

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

*Bydd £1.562 miliwn o'r gyllideb weithredu o £16.128 miliwn yn cael ei ryddhau i'w ddefnyddio fel cyllid i'r sector ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 wrth i Medr barhau i dyfu tuag at y model gweithredu y cytunwyd arno ar ei gyfer.

Cyfanswm y dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26

22. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ddyraniadau cyllido cyffredinol y flwyddyn academiaidd, a nodir yn fanylach drwy gydol y cyhoeddiad.

	Blwyddyn Academiaidd 2024/25 £ miliwn	Blwyddyn Academiaidd 2025/26 £ miliwn
Wedi'i glustnodi: contract prentisiaethau	134.520	134.520
Wedi'i glustnodi: prentisiaethau iau	0.400	0.600
Craidd: chweched dosbarth awdurdodau lleol*	116.664	116.853
Craidd: Dysgu Oedolion yn y Gymuned awdurdodau lleol*	6.479	6.479
Craidd: addysg bellach prif ffrwd	409.066	422.826
Craidd: Cymorth Dysgu Ychwanegol addysg bellach	16.741	16.741
Craidd: Cronfa Ariannol Wrth Gefn addysg bellach	7.192	6.880
Craidd: wedi'i ddal yn ôl o'r dyraniadau i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad pan geir tystiolaeth o hynny yn 2025/26		21.126
Craidd: ymchwil ac arloesi addysg uwch ** 2	97.295	97.121
Craidd: cyllid addysgu addysg uwch ** 3	69.434	69.745
Craidd: prentisiaethau gradd	9.411	9.411
Strategol: mynediad, llesiant a chynhwysiant ***	23.962	28.469
Strategol: cyflogadwyedd a sgiliau ***	3.320	3.320
Strategol: ymchwil ac arloesi***	1.733	2.000
Strategol: y myfyriwr/dysgwr a'r gweithlu ***	8.254	8.254
Strategol: data a thechnoleg ***	3.993	3.993
Strategol: datblygiadau strategol	2.250	3.500
Cyfalaf: addysg uwch	10.000	10.000
Cyfalaf: addysg bellach ddigidol	3.000	3.000
Cyfanswm	923.240	964.838

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

* Yn y gorffennol, byddai dyraniadau chweched dosbarth awdurdodau lleol a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael eu pennu ar sail blwyddyn ariannol. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, cynigir bod awdurdodau lleol yn cael dyraniad 16 mis o fis Ebrill 2025 hyd at fis Gorffennaf 2026, fel bo modd i Medr symud yr holl ddarpariaeth drydyddol graidd i gylch cyllideb blwyddyn academiaidd. Nid yw'r tabl uchod ond yn cynnwys yr ymrwymiad 12 mis sy'n cwmparu'r flwyddyn academiaidd.

** Ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, cymhwysodd CCAUC ostyngiad pro rata untro o £11 miliwn i linellau cyllido craidd ar gyfer addysg uwch ac ymchwil i adlewyrchu gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael. Gan nad yw cyllid Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn ariannol 2025-26 yn gwrthdroi'r toriad hwnnw, mae'r ffigurau a gyflwynir yn y tabl hwn wedi'u cyfrifo ar sail y ffigurau ar ôl y gostyngiad, ar sail pro rata yn erbyn pob llinell fel bo modd cymharu.

*** Mae cyllidebau strategol yn cynnwys llinellau cyllido strategol a drosglwyddwyd i Medr o Lywodraeth Cymru a CCAUC. Mae cyfanswm o 49 o linellau cyllido strategol wedi cael eu grwpio i chwe llinell cyllideb thematig. Mae cyllideb sydd i raddau helaeth yn wastad o ran arian parod wedi galluogi sefydlogrwydd yn lefelau'r cyllid, gyda chynnydd i'r gyllideb

² Mae hyn yn cynnwys Ymchwil o Ansawdd (QR), ymchwil ôl-raddedig (PGR) a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC/RWIF).

³ Mae hyn yn cynnwys premiymau amser llawn a rhan-amser, dyraniadau ar sail credydau a dyraniadau fesul pen.

mynediad, llesiant a chynhwysiant (£2 miliwn i gydnabod cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ynghylch cynnydd o £2 miliwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl) a'r gyllideb ymchwil ac arloesi. Mae hyn hefyd wedi caniatáu datblygu cynigion ar gyfer tua £3.5 miliwn o gyllid sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd i gynorthwyo darparwyr addysg drydyddol i gyflawni yn erbyn cynllun gweithredu Medr; rhennir manylion dyrannu'r gronfa hon drwy gyhoeddiad dilynol. Gall y grwpiau hyn newid mewn blynyddoedd dilynol ar ôl gwerthuso effaith a chanlyniadau'r buddsoddiadau strategol hyn.

Dyraniadau craidd: Darpariaeth prentisiaeth

- 23. Yn unol â llythyr cyllido Llywodraeth Cymru, mae'r gyllideb prentisiaethau (a ddyrennir drwy Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi) wedi'i chlustnodi i ddiben penodol.
- 24. Dylid nodi bod y brif raglen prentisiaeth yn gweithredu'n wahanol i'r rhan fwyaf o gyllid Medr, gan ei bod yn contract a gaffaelir yn fasnachol, ac a gyflenwir drwy 10 prif contractwr.
- 25. Mae'r gyllideb prentisiaethau'n cynnwys darpariaeth sy'n amrywio rhwng prentisiaethau sylfaen a gradd-brentisiaethau.
- 26. Cyllideb Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yw **£143.906 miliwn** sydd i bob pwrpas yn cyfateb yn union i gyllideb 2024-25 o £143.898 miliwn gyda chywiriad cyfrifyddu o £8k.
- 27. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw rhywfaint o'r llinell gyllideb hon yn ôl i dalu costau staff yn Llywodraeth Cymru, fel yr oedd yn wir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gyda chyfanswm o **£143.277 miliwn** yn cael ei drosglwyddo i Medr.

Crynodeb o'r Defnydd o'r Gyllideb Prentisiaethau Glustnodedig⁴

Cyllideb 2025-26 £ miliwn	143.277
Ymrwymiad contract prentisiaethau disgwyliedig sy'n weddill ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 hyd at 31 Gorffennaf 2025	(49.770)
Cyfanswm yr Ymrwymiadau	(49.770)
Costau staff Medr a gyllidir gan y rhaglen ar gyfer prentisiaethau	(0.579)
Prentisiaethau gradd	(4.411)
Prentisiaethau a rennir/â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr	(1.900)
Datblygiadau prentisiaethau a chyllid strategol	(1.867)
Cytundeb prentisiaethau (Awst – Mawrth)	*(84.750)
Cyfanswm y cynigion gwariant	(93.507)

⁴ Mae'r crynodeb o'r defnydd yn nodi penderfyniadau Bwrdd Medr ym mis Mawrth 2025, ond gallent newid ar ôl rhoi ystyriaeth i'r defnydd gorau o gyllid strategol.

Gwariant cyffredinol a gynlluniwyd	(143.277)
Ymrwymiad contract prentisiaethau disgwylidig sy'n weddill ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 hyd at 31 Gorffennaf 2026	*(49.770)

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

* mae'r ddwy gyllideb hyn yn ffurfio contract blwyddyn academiaidd 2025/26 o £134.520 miliwn.

Contract prentisiaethau

Hanes 5 mlynedd o gyllideb prentisiaethau

Blwyddyn ariannol	Cyllideb gros Prentisiaethau (gan gynnwys Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop) £ miliwn	Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru £ miliwn	Ychwanegiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop £ miliwn
2020-21	128.077	97.033	31.044
2021-22	139.868	113.533	26.335
2022-23	144.700	117.033	27.667
2023-24	181.448	138.898	42.550
2024-25	143.898	143.898	0

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

28. Mae'r tabl uchod yn dangos bod cyfraniad Llywodraeth Cymru at y gyllideb prentisiaethau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn y blynyddoedd hyd at ac yn cynnwys blwyddyn ariannol 2023-24, mae cyfraniadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi rhoi hwb sylweddol i'r hyn y llwyddodd Llywodraeth Cymru i'w ddefnyddio wrth gytuno ar werthoedd contractau. Mae'r gyllideb prentisiaethau'n cynnwys cyllid ar gyfer cyflawni (prentisiaethau prif raglen a gradd-prentisiaethau) a chostau datblygu rhaglenni, marchnata a seilwaith sylfaenol fel cynnal y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag.
29. Troswyd cyllideb blwyddyn ariannol 2023-24 yn ddyraniad o £156 miliwn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 a throswyd cyllideb blwyddyn ariannol 2024-25 yn ddyraniad o £134.5 miliwn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25. Y rheswm am hyn yw bod y flwyddyn academiaidd yn rhychwantu dwy flynedd ariannol, gan roi cyfrif am 4 mis o'r flwyddyn contract flaenorol ac 8 mis o'r flwyddyn contract nesaf. Mae contract mwy yn y flwyddyn flaenorol, yn unol â blwyddyn academiaidd 2023/24, yn creu 'ton fwa' i mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol (h.y. taliadau Ebrill i Orffennaf ym mlwyddyn academiaidd 2024/25).
30. I gydnabod y gostyngiad sylweddol yng ngwerth y contract rhwng blwyddyn academiaidd 2023/24 a blwyddyn academiaidd 2024/25, cytunodd Llywodraeth Cymru i uno'r ddwy flwyddyn contract i greu contract dwy flynedd. Golygai hyn fod darparwyr yn gallu proffilio dechreuadau newydd ar draws y cyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na rhoi mwy o gefnogaeth i ddechreuadau ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 ar draul dechreuadau yn 2024/25.
31. Cytunwyd ar ddull tebyg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 a blwyddyn academiaidd 2025/26 hefyd.

Ymrwymiad disgwyliedig sy'n weddill o contract prentisiaethau blwyddyn academiaidd 2024/25

32. Mae contract academiaidd blwyddyn academiaidd 2024/25 yn rhychwantu dwy flwyddyn ariannol. O ganlyniad i hyn, mae ymrwymiad sylweddol ar gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 yn ymwneud â chost y ddarpariaeth sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn contract gyfredol (blwyddyn academiaidd 2024/25) h.y. cost y ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Gorffennaf 2025.
33. Mae hyn yn arwain at ymrwymiad wedi'i gadarnhau o £49.770 miliwn ar linell y gyllideb mewn perthynas â chontract prentisiaethau blwyddyn academiaidd 2024/25.

Staff a gyllidir gan y rhaglen

34. Bydd y trefniadau a sefydlwyd yn Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu staff sy'n rheoli'r rhaglen brentisiaeth yn parhau yn Medr. Gan adlewyrchu tarddiad y gyllideb Prentisiaethau yn adran yr Economi, mae elfen o'r gyllideb prentisiaethau yn cyfrannu at gyllideb gweithredu Medr. I gynnwys y cyfnod gweithredu llawn o 12 mis yn dilyn sefydlu Medr, caiff £579,000 o'r gyllideb prentisiaethau ei throsglwyddo'n uniongyrchol i gyllideb gweithredu Medr ar gyfer rheoli ar draws y sefydliad.

Prentisiaethau gradd

35. Mae'r cyllid hwn yn ymwneud ag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r defnydd o brentisiaethau gradd.
36. Ym flwyddyn academiaidd 2024/25, dyrannwyd £9.411 miliwn i gefnogi darpariaeth cynlluniau prentisiaethau gradd rhanbarthol. Daeth £4.411 miliwn o gyllideb yr Economi gyda £5 miliwn pellach wedi'i ddyrannu drwy'r gyllideb Addysg (drwy CCAUC).
37. Mae cyllideb prentisiaethau gradd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 wedi'i chadw ar lefelau blwyddyn ariannol 2024-25 gyda £4.411 miliwn yn weddill ar ffurf cyfraniad o gyllideb yr Economi. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau'r galw disgwyliedig ac yn cynnal ymagwedd gyson ar draws yr holl raglen prentisiaethau, gan gefnogi trosglwyddiad llyfn.

Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr

38. Mae'r cyllid hwn yn gysylltiedig ag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ymestyn prentisiaethau a rennir, sy'n gyson â'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn ein cynllun strategol i gynyddu cyfranogiad a chynig cyfleoedd tecach.
39. Mae prentisiaethau a rennir yn galluogi prentisiaid i ennill eu cymwysterau ar draws nifer o gyflogwyr yn hytrach na chael eu cyflogi gan un cyflogwr yn unig. Mae hyn yn fuddiol i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig nad ydynt o bosib yn gallu

cyflogi prentis yn llawnamser neu gynnig mynediad at ofynion llawn fframwaith prentisiaeth.

40. Mae llinell hon yn y gyllideb hefyd yn cynnwys darparu prentisiaethau â chymorth.
41. Mae prentisiaethau â chymorth yn rhoi cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl sydd ag anghenion cyflogaeth a dysgu dwys ac amrywiol, er mwyn cael mynediad at brentisiaeth a'i chwblhau. Gall y gefnogaeth a ddarperir fod drwy hyfforddwyr swydd neu adnodd arbenigol arall.
42. Dyrannwyd cyfanswm o £1 miliwn o'r gyllideb prentisiaethau ym flwyddyn ariannol 2024-25 i gefnogi prentisiaethau a rennir a phrentisiaethau â chymorth.
43. Ar hyn o bryd ceir galw heb ei fodloni am brentisiaethau â chymorth mewn meysydd uchel eu blaenoriaeth fel peirianeg, adeiladu, a'r diwydiannau creadigol a digidol. Ceir cyfle hefyd i greu mwy o gyfleoedd mewn sectorau gwyrdd i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
44. Ac ystyried y ffocws ar gynyddu cyfranogiad a chreu mwy o gyfleoedd hygyrch yn ein Cynllun Strategol, ychwanegwyd £500k i'r gyllideb hon i ymdrin â rhywfaint o'r galw presennol sydd heb ei fodloni. Mae'r cynnydd hwn **ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn unig**, sy'n rhoi cyfle inni adolygu effaith y gyllideb uwch.
45. O flwyddyn ariannol 2025-26 ymlaen, cynigir bod y Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr, £400k, yn cael ei uno i'r llinell gyllideb hon gan ei fod yn cyd-fynd yn agos â nodau cynhwysol y prentisiaethau a rennir a'r prentisiaethau â chymorth.

Datblygiadau prentisiaethau

46. Caiff fframweithiau/llwybrau prentisiaeth eu hadolygu'n gylchol i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion a safonau'r diwydiant. Mae'r adolygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn cynnwys:
 - a. Gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch
 - b. Peirianeg
 - c. Adeiladu a gwasanaethau adeiladu
 - d. Moduro, trafnidiaeth a logisteg
 - e. Amaethyddiaeth a'r amgylchedd
 - f. Gofal plant
 - g. Iechyd a gofal cymdeithasol
 - h. Ynni
 - i. Technoleg ddigidol
 - j. Bwyd a diod
47. Bydd y llinell gyllideb hon hefyd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r rhaglen newydd brentisiaethau o flwyddyn academiaidd 2027/28. Gall y gost

gynnwys ymgynghori, gwerthuso, ymchwil, gweithgaredd peilot a chynghor arbenigol, ymhlith agweddau eraill.

48. Yn olaf, mae'r llinell gyllideb hon yn cynnwys cyllid i gefnogi mentrau strategol. Gallai cyllid strategol gynnwys cyllid a ddefnyddir i werthuso'r angen am gymorth iechyd meddwl o fewn prentisiaethau neu i hyrwyddo cyfranogiad ehangach yn unol â darparwyr addysg drydyddol eraill, er enghraifft mewn perthynas â chynhwysiant digidol. Bydd y defnydd o gyllid strategol yn cael ei adolygu'n gyson yn ystod blwyddyn y contract.

Ymrwymiad contract prentisiaethau 2025/26

49. Ac ystyried yr ymrwymïadau eraill, mae hyn yn gadael £84.750 miliwn i'w ddyrannu i gontract blwyddyn academiaidd 2025/26 sy'n golygu bod modd cynnal y contract prentisiaethau ar £134.520 miliwn.
50. Mae 63% o werth contract blwyddyn Academiaidd 2025/26 wedi'i broffilio i'w wario rhwng 1 Awst 2025 a 31 Mawrth 2026; yr ymrwymiad gofynnol ar linell y gyllideb prentisiaethau ym mlwyddyn ariannol 2025-26 yw £84.750 miliwn. Bydd y 37% sy'n weddill o gontract blwyddyn ariannol 2025/26 yn cael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27 a bydd angen ymrwymiad cyllideb o £49.770 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

Dyraniad y gyllideb prentisiaethau (blwyddyn gontract) ar lefel y darparydd yn ystod y flwyddyn academiaidd (blwyddyn gontract)

Deiliad y contract	Dyraniad blwyddyn academiaidd 2024/25 £	Dyraniad blwyddyn academiaidd 2025/26 £	Amrywiad £	Amrywiad %
ACT	24,629,864	24,629,864	0	0%
Hyfforddiant Cambrian	7,551,016	7,551,016	0	0%
Coleg Cambria	11,881,174	11,881,174	0	0%
ITEC	7,125,746	7,125,746	0	0%
Grŵp Llandrillo Menai	11,902,999	11,902,999	0	0%
Educ8	11,569,808	11,569,808	0	0%
Coleg Caerdydd a'r Fro	12,558,009	12,558,009	0	0%
Coleg Sir Benfro	21,069,812	21,069,812	0	0%
Coleg Gŵyr Abertawe	9,090,208	9,090,208	0	0%
Grŵp Colegau NPTC	17,141,365	17,141,365	0	0%
Cyfansymiau	134,520,001	134,520,001	0	0%

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Dyraniadau craidd: chweched dosbarth awdurdodau lleol

51. Mae cyllid craidd ar gyfer chweched dosbarth awdurdodau lleol yn cefnogi darpariaeth addysg amser llawn ar draws 133 chweched dosbarth mewn ysgolion yng Nghymru. Darpariaeth Safon Uwch (sy'n cyfateb i lefel 3) yw'r ddarpariaeth yn bennaf, gyda swm bach o ddarpariaeth alwedigaethol, a gyflwynir i tua 21,000 o bobl ifanc 16-19 oed.

52. Mae'r [fethodoleg](#) ar gyfer cyfrifo dyraniadau chweched dosbarth yr awdurdodau lleol yn dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ers blwyddyn ariannol 2015-16 ac a argymhellwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW). Cafodd y fethodoleg ei diwygio ychydig yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 i roi cyfrif am y gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 fe'i diwygiwyd ymhellach yn sgil cyfraniad ychwanegol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS), wedi'i ychwanegu ar gyfradd o 3.91%.
53. Fel y blynnyddoedd cynt, defnyddir cyfuniad o niferoedd dysgwyr o'r gorffennol a niferoedd dysgwyr demograffig a ragwelir ar gyfer pob awdurdod lleol, gan luosi'r rhain â chyfrifiad o werth rhaglen gyfartalog. Caiff ychwanegiadau ar gyfer amddifadedd, ardaloedd tenau eu poblogaeth a chyfrwng Cymraeg, ynghyd â 3% o lwfans awdurdod lleol a gadwir yn ganolog a'r cyfraniad TPS sydd bellach yn 3.91% eu hadio at hyn i gyfrifo'r dyraniad terfynol.
54. Gellir canfod gwybodaeth am niferoedd y dysgwyr a ragwelir a'r gwerthoedd rhaglen cyfartalog ar lefel awdurdod lleol yn Atodiad LA.

Cyfradd fesul uned

55. Mae cynnydd o 3.0% i'r gyfradd fesul uned wedi'i gymhwyso i'r cyfraddau cyllido fesul dysgwr. Er nad yw hyn wedi'i gymhwyso'n benodol i gydnabod dyfarniad cyflog ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, bydd angen rheoli unrhyw ddyfarniad cyflog ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 a gytunir rhwng undebau a'r sector oddi mewn i'r dyraniad hwn. Mae hyn yn unol â chyllid ychwanegol a ddarparwyd i Medr er mwyn cyflawni polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau cyflog cyfartal i athrawon yn ysgolion Cymru a darlithwyr AB.

Dyraniadau arfaethedig i awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26

Awdurdod lleol	Dyraniad gwirioneddol blwyddyn ariannol 2024-25 £	Cyfanswm dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 £	Amrywiad o flwyddyn ariannol 2024-25 £	Amrywiad o flwyddyn ariannol 2024-25 %
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	8,323,311	7,926,135	(397,176)	-4.77
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	4,205,219	4,167,203	(38,016)	-0.90
Cyngor Sir Caerdydd	17,003,029	18,034,501	1,031,471	6.07
Cyngor Sir Gaerfyrddin	7,494,791	7,767,626	272,834	3.64
Cyngor Sir Ceredigion	4,242,280	4,286,801	44,520	1.05
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5,880,602	5,805,936	(74,666)	-1.27
Cyngor Sir Ddinbych	4,324,317	4,185,752	(138,565)	-3.20
Cyngor Sir y Fflint	5,040,958	5,021,001	(19,957)	-0.40
Cyngor Sir Gwynedd	4,607,573	4,741,343	133,769	2.90
Cyngor Sir Ynys Môn	3,325,905	3,097,760	(228,145)	-6.86
Cyngor Sir Fynwy	4,255,653	4,173,046	(82,607)	-1.94
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	2,335,130	2,439,616	104,485	4.47

Awdurdod lleol	Dyraniad gwirioneddol blwyddyn ariannol 2024-25 £	Cyfanswm dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 £	Amrywiad o flwyddyn ariannol 2024-25 £	Amrywiad o flwyddyn ariannol 2024-25 %
Cyngor Dinas Casnewydd	8,698,680	8,563,287	(135,393)	-1.56
Cyngor Sir Penfro	3,416,083	3,515,774	99,690	2.92
Cyngor Sir Powys	5,545,253	5,547,485	2,231	0.04
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	10,764,091	10,130,463	(633,628)	-5.89
Dinas a Sir Abertawe	7,094,596	7,221,843	127,246	1.79
Cyngor Bro Morgannwg	8,286,702	8,385,481	98,778	1.19
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	516,236	537,272	21,035	4.07
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1,304,202	1,304,697	494	0.04
	116,664,622	116,853,022	188,399	0.16

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

56. Er y bu cynnydd o 3.0% i gyfradd fesul uned y cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, dim ond 0.16% yw'r cynnydd cyfartalog i gyfanswm cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, er bod y newid mewn cyllid ar gyfer pob darparydd yn amrywio fel y dangosir uchod. Mae'r newidiadau hyn oherwydd gostyngiad cyffredinol yn nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i chweched dosbarth ysgolion ac/neu newidiadau i'r modd y darperir y rhaglenni.

Dyraniad 16 mis (blwyddyn yn unig)

57. Er mwyn cyd-fynd â phob sector trydyddol arall, ac yn bwysicach fyth i gyd-fynd â sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynllunio darpariaeth chweched dosbarth, cytunwyd y bydd cyllid chweched dosbarth yn cael ei drosi o ddyraniad blwyddyn ariannol i ddyraniad blwyddyn academiaidd. Cyflawnir hyn drwy gyhoeddi dyraniad 16 mis i gynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Gorffennaf 2026.

	Dyraniad blwyddyn ariannol 2024-25 £	Dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 (Ebrill 25 - Mawrth 26) £	4/12 tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/2026 (Ebrill 26 - Gorff 26) £	Cyfanswm y Dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a blwyddyn academiaidd 2025/26 (Ebrill 25 - Gorff 26) £
Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr	8,323,311	7,926,135	2,642,045	10,568,180
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	4,205,219	4,167,203	1,389,068	5,556,271
Cyngor Sir Caerdydd	17,003,029	18,034,501	6,011,500	24,046,001
Cyngor Sir Gaerfyrddin	7,494,792	7,767,626	2,589,209	10,356,835
Cyngor Sir Ceredigion	4,242,280	4,286,801	1,428,934	5,715,735
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5,880,602	5,805,936	1,935,312	7,741,248
Cyngor Sir Ddinbych	4,324,318	4,185,752	1,395,251	5,581,003

	Dyraniad blwyddyn ariannol 2024-25	Dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 (Ebrill 25 - Mawrth 26)	4/12 tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/2026 (Ebrill 26 - Gorff 26)	Cyfanswm y Dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a blwyddyn academiaidd 2025/26 (Ebrill 25 - Gorff 26)
	£	£	£	£
Cyngor Sir y Fflint	5,040,959	5,021,001	1,673,667	6,694,668
Cyngor Sir Gwynedd	4,607,574	4,741,343	£1,580,448	6,321,791
Cyngor Sir Ynys Môn	3,325,905	3,097,760	1,032,587	4,130,347
Cyngor Sir Fynwy	4,255,653	4,173,046	1,391,015	5,564,061
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	2,335,130	2,439,616	813,205	3,252,821
Cyngor Dinas Casnewydd	8,698,680	8,563,287	2,854,429	11,417,716
Cyngor Sir Penfro	3,416,083	3,515,774	1,171,925	4,687,699
Cyngor Sir Powys	5,545,254	5,547,485	1,849,162	7,396,647
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	10,764,091	10,130,463	3,376,821	13,507,284
Dinas a Sir Abertawe	7,094,597	7,221,843	2,407,281	9,629,124
Cyngor Bro Morgannwg	8,286,703	8,385,481	2,795,160	11,180,641
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	516,237	537,272	179,091	716,363
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1,304,203	1,304,697	434,899	1,739,596
	116,664,623	116,853,022	38,951,007	155,804,029

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Ymrwymiad chweched dosbarth awdurdodau lleol 2025/26

58. Gan fod grant chweched dosbarth blwyddyn ariannol 2024-25 wedi'i seilio ar flwyddyn ariannol, ni roddwyd unrhyw bwysau ar gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26.
59. Er mwyn cymhwyso dyraniad 16 mis mae angen £116,853,022 o gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 i gwmpasu'r 12 mis o fis Ebrill 2025 hyd at fis Mawrth 2026, gan osod ymrwymiad am 4 mis arall o £38,951,007 yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2026-27.

Dyraniadau craidd: Darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) gan Awdurdodau Lleol

60. Mae cyllid craidd ACL Awdurdodau Lleol yn cefnogi darpariaeth dysgu rhan-amser i oedolion yn y gymuned ar draws 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud yn bennaf ag ymgysylltu, sgiliau sylfaenol (llythrennedd, rhifedd, digidol) a rhywfaint o baratoad am fywyd a gwaith i tua 15,000 o ddysgwyr 19 oed neu'n hŷn.
61. Penderfynwyd ddiwethaf ar y dull cyllido ar gyfer darpariaeth ACL awdurdodau lleol ym blwyddyn academiaidd 2023/24. Roedd y gyllideb ar y pryd wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng yr awdurdodau lleol ar sail y gyfran o boblogaeth Cymru o fewn eu hardal a oedd heb gymhwyster lefel 2. Ym mhob blwyddyn ddilynol, mae'r gyllideb

naill ai wedi cael ei chadw ar yr un lefel neu wedi'i chynyddu'n unol â chynnydd cyfradd uned a gymhwyswyd i gyllidebau eraill. Roedd hyn yn fodd i greu cyllideb sefydlog.

62. Ymhen amser, bydd dyletswydd newydd yn cael ei gosod ar Medr fel y nodir yn [Adran 94](#) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Gyda'r ddyletswydd newydd yn yr arfaeth⁵ mae dyraniadau blwyddyn ariannol 2025-26 hefyd wedi'u cynnal ar yr un lefel er mwyn sicrhau parhad nes cael mwy o eglurder ynghylch gofynion y ddyletswydd newydd yn y dyfodol.

Awdurdod lleol	Dyraniad blwyddyn ariannol 2024-25 £	Dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 (Ebrill 25 - Mawrth 26) £
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	268,099	268,099
Coleg Penybont	273,654	273,654
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	377,276	377,276
Cyngor Sir Caerdydd	1,034,881	1,034,881
Cyngor Sir Gaerfyrddin	342,693	342,693
Cyngor Sir Ceredigion	112,714	112,714
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	212,448	212,448
Cyngor Sir Ddinbych	171,507	171,507
Cyngor Sir y Fflint	273,111	273,111
Cyngor Sir Gwynedd	201,083	201,083
Cyngor Sir Ynys Môn	121,473	121,473
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	131,782	131,782
Cyngor Sir Fynwy	141,471	141,471
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	297,336	297,336
Cyngor Dinas Casnewydd	315,000	315,000
Cyngor Sir Penfro	438,219	438,219
Cyngor Sir Powys	235,767	235,767
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	494,578	494,578
Dinas a Sir Abertawe	408,247	408,247
Cyngor Bro Morgannwg	193,708	193,708
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	182,314	182,314
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	251,700	251,700
Cyfanswm	6,479,061	6,479,061

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Cyfradd fesul uned

⁵Cyn gynted ag y bo'r ddyletswydd newydd wedi'i diffinio, rhaid i Medr sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i ddysgwyr ôl-19 yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i unigolion cymwys sy'n addas i'w gofynion. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i benderfynu sut i diffinio dysgwyr cymwys ac addysg berthnasol.

63. Gan fod darpariaeth ACL yn cael ei chyllido drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar y fformiwla ar gyfer darpariaeth addysg bellach ran-amser, cafwyd cynnydd o 3% i'r cyfraddau fesul uned er mwyn sicrhau parhad.
64. Ac ystyried bod dyraniadau ACL awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn cael eu cadw ar lefelau blwyddyn ariannol 2024-25, gallai hyn olygu gostyngiad yn nifer y dysgwyr.

Darpariaeth ACL yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

65. Bydd cyllid ACL ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddarparu drwy Goleg Pen-y-bont ar Ogwr fel y digwyddodd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.

Dyraniad 16 mis (blwyddyn yn unig)

66. Er mwyn cyd-fynd â phob sector trydyddol arall ac, yn bwysicach na hynny, i gyd-fynd â'r modd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth ACL, cytunwyd y bydd cyllid ACL yn cael ei drosi o ddyraniad blwyddyn ariannol i ddyraniad blwyddyn academiaidd. Cyflawnir hyn drwy gyhoeddi dyraniad 16 mis i gynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Gorffennaf 2026.

Awdurdod lleol	Dyraniad blwyddyn ariannol 2024-25	Dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 (Ebrill 25 - Mawrth 26)	4/12 tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/2026 (Ebrill 26 - Gorff 26)	Cyfanswm y Dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a blwyddyn academiaidd 2025/26 (Ebrill 25 – Gorff 26)
	£	£	£	£
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	268,099	268,099	89,366	357,465
Coleg Penybont	273,654	273,654	91,218	364,872
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	377,276	377,276	125,758	503,034
Cyngor Sir Caerdydd	1,034,881	1,034,881	344,960	1,379,841
Cyngor Sir Gaerfyrddin	342,693	342,693	114,231	456,924
Cyngor Sir Ceredigion	112,714	112,714	37,571	150,285
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	212,448	212,448	70,816	283,264
Cyngor Sir Ddinbych	171,507	171,507	57,169	228,676
Cyngor Sir y Fflint	273,111	273,111	91,037	364,148
Cyngor Sir Gwynedd	201,083	201,083	67,027	268,110
Cyngor Sir Ynys Môn	121,473	121,473	40,491	161,964
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	131,782	131,782	43,927	175,709
Cyngor Sir Fynwy	141,471	141,471	47,157	188,628
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	297,336	297,336	99,112	396,448

Awdurdod lleol	Dyraniad blwyddyn ariannol 2024-25	Dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 (Ebrill 25 - Mawrth 26)	4/12 tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/2026 (Ebrill 26 - Gorff 26)	Cyfanswm y Dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a blwyddyn academiaidd 2025/26 (Ebrill 25 – Gorff 26)
	£	£	£	£
Cyngor Dinas Casnewydd	315,000	315,000	105,000	420,000
Cyngor Sir Penfro	438,219	438,219	146,073	584,292
Cyngor Sir Powys	235,767	235,767	78,589	314,356
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	494,578	494,578	164,859	659,437
Dinas a Sir Abertawe	408,247	408,247	136,082	544,329
Cyngor Bro Morgannwg	193,708	193,708	64,569	258,277
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	182,314	182,314	60,771	243,085
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	251,700	251,700	83,900	335,600
Cyfanswm	6,479,061	6,479,061	2,159,687	8,638,748

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Ymrwymiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned Blwyddyn Academiaidd 2025/26

67. Gan fod y grant dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn seiliedig ar flwyddyn ariannol, nid oedd unrhyw bwysau ar gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26.
68. Er mwyn cymhwyso dyraniad 16 mis mae angen £6,479,061 o gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 i gwmpasu'r 12 mis o fis Ebrill 2025 hyd at fis Mawrth 2026, gan osod ymrwymiad am 4 mis arall o £2,159,687 yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2026-27.

Dyraniadau craidd: Darpariaeth addysg bellach (llawnamser, rhan-amser, Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chronfeydd Wrth Gefn Ariannol)

Darpariaeth addysg bellach (llawnamser, rhan-amser)

Cyllid llawnamser

69. Mae cyllid addysg bellach (AB) craidd yn cefnogi darpariaeth addysg amser llawn a rhan-amser ar draws 13 sefydliad AB yng Nghymru.
70. Mae darpariaeth amser llawn yn cynnwys darpariaeth Safon Uwch a galwedigaethol ar draws pob lefel addysgol o lefel mynediad i lefel 4 ar gyfer tua 44,000 o ddysgwyr.

71. Mae'r [fethodoleg](#) ar gyfer cyfrifo'r dyraniadau llawnamser yn dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ers 2015-16 ac a ddatblygwyd ac a gytunwyd â'r sector addysg bellach.
72. Ym mlwyddyn academiaidd 2023/24, gwnaed newid bach i'r fethodoleg i roi cyfrif am ostyngiad cyson yn nifery disgyblion o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae hyn wedi'i ddiwygio ymhellach yn sgil cyfraniad ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynnydd i gostau'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) ar gyfer darparwyr AB, wedi'i ychwanegu ar gyfradd o 2.56%.
73. Fel y blynyddoedd cynt, mae'r fethodoleg gyllido yn defnyddio cyfuniad o niferoedd dysgwyr o'r gorffennol a niferoedd dysgwyr demograffig a ragwelir ar gyfer pob darparydd, gan luosi'r rhain â chyfrifiad o werth rhaglen cyfartalog. At hyn, ceir ychwanegiadau ar gyfer amddifadedd, ardaloedd tenau eu poblogaeth a chyfrwng Cymraeg, ynghyd â 3% o lwfans awdurdod lleol a gadwir yn ganolog, 2% o lwfans cynnal ystadau a'r cyfraniad diweddaraf o 2.56% at y TPS er mwyn pennu'r dyraniad amser llawn terfynol.

Cynnydd i'r Gyfradd fesul Uned

74. Mae cynnydd o 3.0% i'r gyfradd fesul uned wedi'i gymhwyso i'r cyfraddau cyllido fesul dysgwr. Er nad yw hyn wedi'i gymhwyso'n benodol i gydnabod dyfarniad cyflog ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, bydd angen rheoli unrhyw ddyfarniad cyflog ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 a gytunir rhwng undebau a'r sector oddi mewn i'r dyraniad hwn. Mae hyn yn unol â chyllid ychwanegol a ddarperir i Medr er mwyn cyflawni yn erbyn polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau cyflog cyfartal i athrawon yn ysgolion Cymru ac i ddarlithwyr AB.

Cyllid Rhan-amser

75. Mae darpariaeth ran-amser yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, Sgiliau Sylfaenol, Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), cymwysterau galwedigaethol yn y gweithle a darpariaeth Cyfrif Dysgu Personol (PLA). Caiff hyn ei gyflwyno i tua 18,000 o ddysgwyr, y rhan fwyaf ohonynt yn 19 oed neu'n hŷn.
76. Yn 2024/25 ychwanegwyd cyllid Cyfrif Dysgu Personol (PLA) at y gyllideb rhan-amser gyffredinol. Wrth gyfrifo dyraniadau AB unigol, yn gyntaf gwarchodwyd darpariaeth PLA ar gyfer pob coleg. Yna cafodd y gyllideb a oedd yn weddill ei rhannu'n gymesur yn ôl y boblogaeth 19 oed neu'n hŷn mewn awdurdodau lleol yng Nghymru heb gymhwyster lefel 3. Pennwyd y coleg agosaf i'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion rhannwyd y boblogaeth rhwng mwy nag un coleg.
77. Nid yw cyllid rhan-amser wedi cael ei ailgyfrifo ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26. Yn lle hynny, mae cynnydd o 3% i'r gyfradd fesul uned wedi'i gymhwyso i ddyraniad blwyddyn academiaidd 2024/25 yn gyson â'r hyn a wnaed ar gyfer darpariaeth amser llawn.

Dyraniadau darpariaeth AB blwyddyn academiaidd 2025/26

	Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2024/25 £	Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £	Amrywiad o flwyddyn academaidd 2024/25 £	Amrywiad %
Coleg Penybont	20,743,642	21,053,159	309,517	1.49
Coleg Caerdydd a'r Fro	48,974,539	51,340,670	2,366,130	4.83
Coleg Cambria	49,850,779	51,341,159	1,490,380	2.99
Coleg Gwent	57,938,921	59,055,717	1,116,796	1.93
Coleg Sir Gâr	27,907,203	28,697,832	790,629	2.83
Coleg y Cymoedd	39,616,486	43,911,087	4,294,600	10.84
Coleg Gŵyr Abertawe	35,372,669	35,947,718	575,049	1.63
Grŵp Llandrillo Menai	48,803,097	50,071,528	1,268,432	2.60
Grŵp Colegau NPTC	33,728,199	33,748,717	20,518	0.06
Y Coleg Merthyr Tudful	12,974,465	13,374,057	399,593	3.08
Coleg Sir Benfro	16,216,092	16,679,536	463,443	2.86
Coleg Catholig Dewi Sant	9,248,611	9,564,260	315,650	3.41
Addysg Oedolion Cymru	7,691,638	8,040,644	349,005	4.54
	409,066,341	422,826,083	13,759,743	3.36

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

78. Er y bu cynnydd o 3.0% i'r gyfradd fesul uned o gyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r cynnydd cyfartalog mewn cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach (SABau) fymryn yn uwch ar 3.36%. Gall y swm amrywio rhwng y naill sefydliad a'r llall, a gellir priodoli unrhyw wahaniaeth i ragfynegiadau'r niferoedd a/neu newidiadau i ddarpariaeth rhaglenni.
79. Ceir hyd i wybodaeth am niferoedd y dysgwyr a ragwelir a'r gwerthoedd rhaglen cyfartalog ar lefel coleg unigol yn Atodiad FE.

Addysg bellach (Cymorth Dysgu Ychwanegol)

80. Darperir cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol er mwyn helpu sefydliadau i ddiwallu anghenion pobl ifanc yng Nghymru ag anawsterau ac/neu anableddau dysgu i gyrraedd eu potensial llawn. Drwy roi'r gefnogaeth gywir ar waith, gellir cael gwared â rhwystrau sylweddol sy'n atal yr unigolyn rhag gwireddu ei botensial.
81. Bwriedir i gyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol ychwanegu at y cyllid a ddyrennir drwy Ddyraniad Cyllid Prif Frwd Ôl-16, ac nid yw'n disodli prif ffynhonnell cyllid y sefydliad. Ni ddylai ychwaith effeithio ar y penderfyniad i dderbyn dysgwr ai peidio.
82. Dylai sefydliadau ddefnyddio cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol i ymateb i anghenion y dysgwr unigol. Wrth wneud hynny, mae Medr yn gofyn i sefydliadau sicrhau arbedion maint rhesymol, fel rhannu cymorth a negodi cyfraddau cystadleuol am gyfarpar a gwasanaethau er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau Medr a sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddosbarthu mewn modd teg a chyfartal.

83. Rhaid i sefydliadau gadw at y Canllawiau ar Gyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr.
84. Cyfrifir dyraniadau Cymorth Dysgu Ychwanegol ar sail dyraniadau amser llawn, rhan-amser a chodiad amddifadedd sefydliadau. Caiff cyfanswm y gyllideb Cymorth Dysgu Ychwanegol ei rannu fesul cyfran yn ôl dyraniad prif ffrwd pob coleg. Mae hyn yn cydnabod, lle bo coleg yn cynyddu/gostwng nifer ei ddysgwyr, ei bod hi'n debygol y bydd yr angen am Gymorth Ychwanegol i Ddysgwyr yn cynyddu/gostwng yn gymesur â hynny.
85. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r gyllideb hon wedi'i chynnal ar yr un lefel ag ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.

	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2024/25	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2025/26	Gwahaniaeth o gymharu â Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2024/25	Canran y gwahaniaeth
	£	£	£	%
Addysg Oedolion Cymru	317,567	317,838	271	0.09%
Coleg Penybont	870,857	853,917	(16,940)	-1.95%
Coleg Caerdydd a'r Fro	2,062,459	2,087,311	24,852	1.20%
Coleg Cambria	2,054,940	2,048,807	(6,133)	-0.30%
Coleg Gwent	2,432,088	2,391,060	(41,028)	-1.69%
Coleg Sir Gâr	1,100,261	1,096,836	(3,425)	-0.31%
Coleg y Cymoedd	1,668,089	1,786,653	118,564	7.11%
Coleg Gŵyr Abertawe	1,483,449	1,456,919	(26,530)	-1.79%
Grŵp Llandrillo Menai	1,846,094	1,843,225	(2,869)	-0.16%
Grŵp Colegau NPTS	1,302,662	1,266,609	(36,053)	-2.77%
Coleg Sir Benfro	666,094	660,133	(5,961)	-0.89%
Coleg Catholig Dewi Sant	389,394	388,613	(781)	-0.20%
Y Coleg Merthyr Tudful	547,046	543,079	(3,967)	-0.73%
	16,741,000	16,741,000		

Addysg bellach (Cronfa Ariannol Wrth Gefn)

86. Darperir Cronfa Ariannol Wrth Gefn i'r 13 o sefydliadau addysg bellach, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a'r Brifysgol Agored (a elwir yn "sefydliadau" yn yr adran hon).
87. Pwrpas y cyllid hwn yw rhoi cymorth ariannol i'r dysgwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol gyfyngu ar eu mynediad at addysg bellach, neu sy'n wynebu anawsterau ariannol, waeth beth fo'r rheswm am hynny, gan gynnwys anabledd corfforol neu unrhyw fath arall o anabledd.
88. Mae'r sefydliadau'n gweinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i'w dysgwyr ar sail disgresiwn ac yn gyfrifol am sut i ddyrannu eu cyllid o'r Gronfa honno, gan sicrhau bod modd teilwra'r cymorth i fodloni anghenion y dysgwr dan sylw.
89. Rhaid i'r sefydliadau gadw at Ganllawiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr.

90. Mae tri sefydliad yn derbyn dyraniad gwarchodedig gan fod eu model darparu'n wahanol iawn i fodel darparu sefydliadau eraill.
91. Cyfrifir y dyraniadau sy'n weddill o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar sail nifer y dysgwyr yn y sefydliad (wedi'u pwysoli ar sail amser llawn/rhan-amser) a nifer y dysgwyr yn y sefydliad sydd wedi hawlio'r Lwfans Cynhaliath Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.
92. Ac ystyried y gyllideb arian parod wastad, mae cyllid y Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi'i gadw ar lefel blwyddyn academiaidd 2024/25, sef £6,880,000. Mae'n ymddangos fel pe bai gostyngiad wedi digwydd o edrych ar y tabl isod, ond mae hyn yn deillio o ailddyrannu adhawliadau o flwyddyn academiaidd 2022/23 yn 2024/25.

Darparydd	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2024/25 £	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2025/26 £	Gwahaniaeth o gymharu â dyraniad blwyddyn academiaidd 2024/25 £	Canran y gwahaniaeth %
Addysg Oedolion Cymru	62,184	62,184	0	0.00%
Coleg Penybont	369,553	350,417	(19,136)	-5.18%
Coleg Caerdydd a'r Fro	921,414	945,188	23,774	2.58%
Coleg Cambria	662,470	639,724	(22,746)	-3.43%
Coleg Gwent	1,099,617	1,010,068	(89,549)	-8.14%
Coleg Sir Gâr	529,740	491,172	(38,568)	-7.28%
Coleg y Cymoedd	764,191	726,839	(37,352)	-4.89%
Coleg Gŵyr Abertawe	681,785	673,255	(8,530)	-1.25%
Grŵp Llandrillo Menai	771,936	730,344	(41,592)	-5.39%
Grŵp NPTC	543,979	517,306	(26,673)	-4.90%
Coleg Sir Benfro	277,817	256,207	(21,610)	-7.78%
Coleg Catholig Dewi Sant	211,377	200,961	(10,416)	-4.93%
YColeg Merthyr Tudful	240,119	231,700	(8,419)	-3.51%
Y Brifysgol Agored	33,635	33,635	0	0.00%
Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg	22,000	11,000	(11,000)	-50.00%
	7,191,817	6,880,000		

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Addysg bellach (Cronfa Urddas Mislif)

93. Pwrpas y Gronfa Urddas Mislif yw sicrhau mynediad at gynnyrch mislif, yn rhad ac am ddim, yn y ffordd fwyaf urddasol posibl. Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi:
- Pob dysgwr; a
 - Phobl yng nghymuned y coleg sydd angen mynediad at gynnyrch mislif, gan roi'r flaenoriaeth i rai o aelwydydd incwm isel.
94. Ni ddylai unrhyw rwystr atal pobl rhag cael mynediad at gynnyrch mislif pan fydd angen.

95. Rhaid i'r Sefydliadau gadw at Ganllawiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr.
96. Cyfrifir dyraniadau'r Gronfa Urddas Mislif ar sail dyraniadau amser llawn a rhan-amser y sefydliadau. Caiff cyfanswm cyllideb y Gronfa Urddas Mislif sydd ar gael ei rannu fesul cyfran yn ôl dyraniad prif ffrwd pob coleg. Mae hyn yn cydnabod, lle bo coleg yn cynyddu/gostwng nifer ei ddysgwyr, ei bod hi'n debygol y bydd yr angen am y Gronfa Urddas Mislif yn cynyddu/gostwng yn gymesur â hynny.
97. Ac ystyried y gyllideb arian parod wastad, mae cyllid y Gronfa Urddas Mislif wedi'i chadw ar lefel blwyddyn academiaidd 2024/25, sef £500,000.

Darparydd	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2024/25 £	Cyfanswm Dyraniad Blwyddyn Academiaidd 2025/26 £	Gwahaniaeth o gymharu â dyraniad blwyddyn academiaidd 2024/25 £	Canran y gwahaniaeth %
Addysg Oedolion Cymru	7,182	11,550	4,368	60.81%
Coleg Penybont	26,745	25,716	(1,029)	-3.85%
Coleg Caerdydd a'r Fro	57,996	61,583	3,587	6.19%
Coleg Cambria	63,267	61,458	(1,809)	-2.86%
Coleg Gwent	76,973	71,220	(5,753)	-7.47%
Coleg Sir Gâr	32,833	33,680	847	2.58%
Coleg y Cymoedd	49,305	51,579	2,274	4.61%
Coleg Gŵyr Abertawe	39,458	42,560	3,102	7.86%
Grŵp Llandrillo Menai	61,366	55,723	(5,643)	-9.20%
Grŵp NPTC	38,878	38,419	(459)	-1.18%
Coleg Sir Benfro	19,224	20,193	969	5.04%
Coleg Catholig Dewi Sant	10,257	10,806	549	5.36%
Y Coleg Merthyr Tudful	16,515	15,513	(1,002)	-6.07%
	500,000	500,000		

Mae'n bosibl y ceir mân anghysondebau yn sgil talgrynnu.

Prentisiaethau iau

98. Mae cyllid wedi'i glustnodi i gynyddu cyllid Prentisiaethau Iau o £400k i £600k. Mae hyn yn rhannol er mwyn cydnabod bod darpariaeth gyfredol eisoes yn uwch na £400k, ond hefyd i ehangu'r rhaglen ar draws awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
99. Nid yw prentisiaethau iau yn brentisiaeth gyfreithiol. Llwybr 14-16 ydyn nhw a gyflwynir gan golegau AB mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol. Maent yn derbyn dysgwyr sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol ac yn cyflwyno llwybrau galwedigaethol iddynt ddwy flynedd yn gynharach nag y byddent fel arfer yn mynd i'r coleg neu i gyflogaeth.
100. Telir prentisiaethau iau drwy ôl-daliadau, gan nodi dyraniadau llawn i ddarparwyr drwy gyhoeddiad ar wahân.

Ymrwymiad addysg bellach 2025/26

101. O gymhwyso'r un proffil dyrannu cyllid ag a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru byddai angen £287.730 miliwn o gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 i gwmpasu'r 8 mis o Awst 2025 hyd at Fawrth 2026, gan osod ymrwymiad 4 mis ychwanegol o £158.552 miliwn ar gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27.

Cyllid wedi'i ddal yn ôl er mwyn cynyddu cyfranogiad

102. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2025-26 a ddyrannwyd i Medr er mwyn cydnabod cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg drydyddol o fewn AB. Nid yw'r modelau cyllido presennol yn rhoi cyfrif am y cynnydd presennol yn nifer y dysgwyr mewn colegau AB ym mlwyddyn academiaidd 2024/25. Mae hyn oherwydd mai data canol blwyddyn a heb eu harchwilio yw data blwyddyn academiaidd 2024/25, ac nad ydynt felly wedi'u defnyddio yn y modelau cyllido.
103. Gan hynny mae £21.126 miliwn wedi'i ddal yn ôl o'r dyraniadau i gefnogi cyfranogiad uwch ar ôl derbyn tystiolaeth o hynny ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
104. Mae'r dull hwn yn rhoi cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosib i Medr ddefnyddio'r gyllideb lle gwelwyd tystiolaeth o gyfranogiad uwch, a lle ceir yr angen mwyaf am hynny, gan fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Strategol.
105. Ar ôl casglu tystiolaeth bydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol a wneir drwy'r gyllideb hon yn cael eu rhannu drwy gyhoeddiad ar wahân. Yn y cyfamser, mae Bwrdd Medr wedi cytuno i warantu'r pum y cant cyntaf o unrhyw dwf a ddangosir er mwyn rhoi rhagdybiaeth glir i bob coleg wrth gynllunio.

Dyraniadau craidd: darpariaeth addysg uwch

106. Darperir cyllid craidd ar gyfer addysg uwch i gydnabod lle bo'r costau'r ddarpariaeth yn uwch na lefel y ffioedd dysgu, ac i gynnal gweithgarwch ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel. Mae'r dyraniadau'n deillio o fformiwla a ddatblygwyd drwy ymgynghori â darparwyr addysg uwch.
107. Nid ydym yn mynnu bod darparwyr addysg uwch yn efelychu ein dull o gyfrifo dyraniadau addysg uwch yn union wrth gyfrifo eu dyraniadau mewnol eu hunain. Rydym yn disgwyl y bydd penderfyniadau ynghylch dyraniadau adnoddau manwl i adrannau a chysiau yn cael eu gwneud mewn modd strategol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol, ac i roi sylw digonol i effaith bosibl dyraniadau o ran cyfrifoldebau statudol darparwyr, gan gynnwys cyfrifoldebau dros gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.
108. Er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 yn erbyn setliad grant llai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cymhwysodd CCAUC ostyngiad o £11 miliwn pro rata ar draws llinellau cyllido craidd cylchol CCAUC (Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd, Ymchwil Ôl-radd, Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC), a chyllid addysgu gan gynnwys cyllid ar sail credydau, fesul pen a phremiymau). Arweiniodd hyn at ostyngiad o tua 6.3% i gyfanswm cyllid rheolaidd pob darparydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Gan

fod cyllid craidd yn cael ei ddyrannu i sefydliadau ar ffurf grantiau bloc, roedd mabwysiadu dull pro rata yn galluogi sefydliadau unigol i bennu eu blaenoriaethau eu hunain wrth benderfynu sut i ymdopi â dyraniadau llai.

109. Nid yw'r setliad i Medr, oddi wrth Lywodraeth Cymru, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn gwrthdroi'r toriad hwn, felly mae'r toriad wedi'i gynnwys ym mhob ffrwd ariannu ar wahân ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 drwy ostwng yr unedau cyllido a ddefnyddir yn y dyraniadau. Mae'r ffigurau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 a gyflwynir yn unrhyw baragraffau canlynol felly wedi'u cyfrifo ar sail y dyraniadau yn dilyn y gostyngiad, ar sail pro rata yn erbyn pob llinell fel bo modd cymharu'r ffigurau o fewn ffrydiau ariannu â dyraniadau blwyddyn academiaidd 2025/26, ar fwy o sail tebyg i debyg. Bydd cyllid craidd ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi, yn parhau i gael ei ddarparu ar ffurf grant bloc, gyda darparwyr yn gallu pennu eu blaenoriaethau eu hunain o ran sut i ddosbarthu'r cyllid hwnnw'n fewnol.

Dyrannu cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi

Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd (QR)

110. Mae cydran QR y grant cylchol yn gwobrwyo rhagoriaeth o ran ymchwil gynaliadwy, gan ddefnyddio ansawdd a maint yr ymchwil a ddangosir yng nghanlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2021. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, neilltuwyd £77.1 miliwn o gyllid ar gyfer QR. Ar ôl rhoi cyfrif am y gostyngiad pro rata o £11 miliwn a gymhwyswyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25 (gweler paragraff 108), cynnydd bach yw hwn o 0.7% ar flwyddyn academiaidd 2024/25. Dyrennir cyllid QR drwy ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr CCAUC [W22/24HE](#).
111. Mae dyraniadau QR blwyddyn academiaidd 2025/26 wedi'u nodi yn ôl darparwydd yn Nhabl H1. Ceir dadansoddiad ar gyfer pob darparwydd yn ôl uned asesiadau yn **Atodiad H-A**.

Hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR)

112. Rydym yn gweithredu ffrwd ariannu ar wahân i gefnogi hyfforddiant myfyrwyr ôl-radd. Dyrennir cyllid ymchwil ôl-radd drwy ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr CCAUC [W22/24HE](#).
113. Mae'r cyllid o fewn uchafswm cyffredinol y cytunir arno gan y Bwrdd bob blwyddyn ac yn seiliedig ar y nifer diweddaraf a gadarnhawyd o ymrestriadau gwirioneddol cyfwerth ag amser llawn (CALI). Dyma'r ymrestriadau cyllidadwy cymwys tybiedig mewn Unedau Asesu sy'n gymwys ar gyfer cyllid QR ym mlwyddyn academiaidd 2025/26. Cymerir y data ymrestru CALI o ddatganiadau cofnodi myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24.
114. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r Bwrdd wedi pennu cyfanswm o £5.9 miliwn o gyllid ar gyfer ymchwil ôl-radd. Ar ôl rhoi cyfrif am yr £11 miliwn o ostyngiad pro rata a gymhwyswyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, mae hyn yn cynrychioli cynnydd bach o 0.7% o gymharu â blwyddyn academiaidd 2024/25. Mae'r dyraniadau ymchwil ôl-radd wedi'u nodi yn Nhabl H1.

115. Darparwyd cyllid lliniaru ar gyfer ymchwil ôl-radd ac ymchwil cysylltiedig ag ansawdd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, ac fe'i dangosir yn y gymhariaeth yn Nhabl H4. Dyrannwyd y cyllid lliniaru hwn gan CCAUC am dair blynedd yn unig, ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2022/23 i 2024/25, i roi cyfrif am y newid i'r fethodoleg gyllido ym mlwyddyn academiaidd 2022/23, felly ni chaiff ei ddyrannu ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC)

116. Pwrpas Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC/RWIF) yw cefnogi'r ystod o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth sy'n arwain at effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys rôl ehangach darparwyr o ran eu cenhadaeth ddinesig. Mae'r cyllid yn rhoi cefnogaeth i weithio gyda busnesau, sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd yn ehangach.
117. Mae dyraniadau CAYC yn cynnwys dwy elfen: (i) grant capasiti i gefnogi twf ac arfer gorau, galluogi mwy o gydweithio a sicrhau sefydlogrwydd ar draws y sector; a (ii) dyraniad ar sail fformiwla sy'n gwobrwyo perfformiad yn erbyn mesurau arloesi cenedlaethol a osodwyd gan CCAUC.
118. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r Bwrdd wedi pennu cyfanswm o £14.2 miliwn o gyllid ar gyfer CAYC. Ar ôl rhoi cyfrif am yr £11 miliwn o ostyngiad pro rata a gymhwyswyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, mae hyn yn cynrychioli cynnydd bach o 0.7% o gymharu â blwyddyn academiaidd 2024/25. Ar sail cyfanswm cyllideb o £14.2 miliwn, rydym wedi pennu grant capasiti o £236k fesul sefydliad. Y dyraniad uchaf y gallu unrhyw sefydliad ei dderbyn (cyfuniad o'r grant capasiti a'r fformiwla) yw £4 miliwn y flwyddyn. Pennwyd £400k fel isafswm fesul sefydliad.
119. Ar ôl ymgynghori â'r sector, diweddarwyd methodoleg ariannu fformiwla CAYC (cylchlythyr CCAUC) [W22/41HE](#) i roi adlewyrchiad mwy priodol o fentrau deilliedig ac egin-fusnesau gan raddedigion. Mae'r dull newydd wedi cael ei ddefnyddio ers blwyddyn academiaidd 2023/24 wrth i CAYC symud tuag at gylch pum mlynedd mwy aeddfed (cylchlythyr CCAUC [W23/12HE](#)). Caiff elfen fformiwla'r cyfrifiad cyllido ei diweddarau'n flynyddol, gan ddefnyddio tair blynedd o ddata a gyflwynir i arolwg Rhyngweithio Addysg Uwch, Busnes a'r Gymuned (HE-BCI) HESA. Mae cyfrifiadau blwyddyn academiaidd 2025/26 yn seiliedig ar ddata HE-BCI a ddychwelwyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 i flwyddyn academiaidd 2023/24. Mae'r blynyddoedd wedi'u pwysoli ar sail 2:3:5. Bob blwyddyn gall darparwyr weld eu dyraniadau'n cynyddu hyd at 30% neu'n gostwng hyd at -10%. Cynyddwyd yr amddiffyniad rhag y gostyngiad i -5% ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 er mwyn sicrhau sefydlogrwydd wrth newid y fethodoleg gyllido. Er mwyn cynnal sefydlogrwydd, bydd y gostyngiad mwyaf ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 yn parhau i fod wedi'i gapio ar -5% (mae'r gymhariaeth hon o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn seiliedig ar ddyraniadau CAYC ar gyfer 2024/25 sy'n rhoi cyfrif am y gostyngiad pro rata o £11 miliwn mewn cyllid). Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ddisgwyl y bydd uchafswm y gostyngiad blynyddol yn newid yn ôl i -10%.
120. Darperir y dyraniadau terfynol yn Nhabl H1.

Dyrannu cyllid ar gyfer addysgu

121. Oni nodir yn wahanol, ar gyfer yr holl gyfraddau cyllido a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid addysgu, ar ôl ystyried y gostyngiad pro rata o £11 miliwn a gymhwyswyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, ceir cynnydd bach o 0.7% i'r cyfraddau ariannu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 o gymharu â blwyddyn academiaidd 2024/25. Oherwydd newidiadau o ran recriwtio, ac felly'r data a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyraniadau, gellir gweld cynnydd neu ostyngiad wrth gymharu cyllid a ddyrannwyd ar gyfer pob ffrwd ariannu o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Mae hynny felly'n golygu na fydd unrhyw newidiadau canrannol i'r dyraniadau o reidrwydd yr un peth â'r cynnydd i'r cyfraddau cyllido.

Cyllid premiwm – darpariaeth gradd amser llawn

122. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r premiwm pynciau drud a'r premiwm pynciau cost uwch yn cael eu dyrannu ar gyfer darpariaeth gradd amser llawn. Dyrennir y premiwm pynciau drud yn gysylltiedig â darpariaeth meddygaeth/deintyddiaeth glinigol a'r elfen perfformiad conservatoire, tra dyrennir y premiwm pynciau cost uwch yn gysylltiedig â meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol, gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg a gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura.

123. Mae dyraniadau'r premiwm pynciau drud wedi'u hamlinellu yn Nhabl H3, ac yn seiliedig ar y ddwy gyfradd breimiwm isod, a ddyfernir fesul gwerth credyd a gwblheir:

Premiwm pynciau drud:

- Cyfradd 1 - £81.39, wedi'i chymhwyso i bynciau meddygol/deintyddol clinigol (yn cyfateb i gategori pwnc academiaidd 1b ac 1d)
- Cyfradd 2 - £48.13, wedi'i chymhwyso i'r elfen perfformiad conservatoire (darpariaeth elfen berfformiad yng nghategori pwnc academiaidd 10).

124. Yn ogystal, fel sydd wedi bod yn wir ers blwyddyn academiaidd 2019/20, bydd cyllid ar gyfer y premiwm pynciau drud yn cael ei gapio drwy gyfyngu ar nifer y gwerthoedd credyd y ceir eu defnyddio wrth gyfrifo. Ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth glinigol, y rhain yw'r gwerthoedd credyd sy'n cyfateb i gwota'r nifer o leoedd clinigol. Ar gyfer darpariaeth conservatoire, y rhain yw'r gwerthoedd credyd sy'n cyfateb i niferoedd y myfyrwyr a gyllidir y cytunwyd arnynt yn rhan o'r trefniant ariannu arbennig a oedd ar waith, cyn cyflwyno'r gyfundrefn ddiwygiedig ar gyfer ffioedd dysgu ym mlwyddyn academiaidd 2012/13. Ym mlwyddyn academiaidd 2022/23, codwyd y cap i gynnwys niferoedd ychwanegol o fyfyrwyr yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer darpariaeth theatr gerdd.

125. Mae'r dyraniadau ar gyfer y premiwm pynciau cost uwch wedi'u hamlinellu yn Nhabl H3 ac yn seiliedig ar y cyfraddau premiwm isod, a ddyfernir fesul gwerth credyd a gwblheir.

Premiwm Pynciau Cost Uwch:

- Meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol - £10.79
- Gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg - £6.20
- Y Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiadura - £2.90

126. Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y premiwm pynciau cost uwch yw'r rhai lle amcangyfrifir bod cost y ddarpariaeth yn uwch na'r ffi ddysgu gyfartalog y tybir y bydd darparwyr yng Nghymru yn ei derbyn, yn ôl gwaith a wnaed ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Mae manylion y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cyfraddau cyllido gwreiddiol wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr CCAUC [W18/24HE](#), er y dylid nodi bod y data a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau wedi'u diweddarau i'w gweithredu ym mlwyddyn academaidd 2019/20, ac na chafodd unrhyw ffigurau eu talgrynnu hyd ddiwedd y broses gyfrifo. Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r dull ar gyfer cyllid blwyddyn academaidd 2025/26. Cyfrifir dyraniadau ar gyfer darparwyr drwy luosi'r gyfradd gyllido â gwerthoedd credydau wedi'u cwblhau o ddata monitro diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr blwyddyn academaidd 2023/24 HESA, ar gyfer darpariaeth gradd amser llawn a rhyngosod, gyda gwerthoedd credyd y flwyddyn rhyngosod wedi'u cyfrif ar sail 0.5.
127. Mae'r premiwm gradd amser llawn a fesul pen ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol (i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynnydd parhaus mewn lleoedd meddygol a'r lleoedd ychwanegol yn gysylltiedig â Covid-19 a ddyrannwyd i ddechreuwyr ym mlwyddyn academaidd 2020/21 a blwyddyn academaidd 2021/22) wedi'u dangos ar wahân yn Nhabl H5, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn Nhabl H3. Mae paragraffau 153 i 158 isod yn rhoi gwybodaeth bellach am y lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol.
128. Ym mlwyddyn academaidd 2023/24, cyflwynwyd premiwm cyfrwng Cymraeg yn gysylltiedig â darpariaeth gradd amser llawn. Mae'r premiwm yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at yr uned gyllido a ddefnyddir yn y premiymau pynciau drud a chost uwch ar gyfer modiwlau gradd amser llawn a gyflawnir drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y premiymau hyn (gweler cylchlythyr CCAUC [W23/08HE](#)). Mae'r dyraniadau i bob darparydd, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerth credyd HESA blwyddyn academaidd 2022/23 a blwyddyn academaidd 2023/24, wedi'u nodi yn Nhabl H3.

Cyllid addysgu ar sail credydau - darpariaeth gradd ran-amser

129. Rydym yn parhau i gyllido darpariaeth gradd ran-amser ym mlwyddyn academaidd 2025/26 drwy'r dull cyllido addysgu ar sail credydau, fel y gwnaed ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
130. Cyfrifwyd cyllid yn seiliedig ar gredydau ar gyfer addysgu gradd ran-amser drwy ddefnyddio'r dull cyllido addysgu presennol. Sefydlwyd y dull hwn yn 1999 ac fe'i diwygiwyd ym mlwyddyn academaidd 2011/12 wrth gael gwared ag elfen adennill y dull.
131. Caiff dyraniadau cyllid eu seilio ar gelloedd cyllido. Mae cell gyllido yn cyfeirio at:
- Lefel: gradd (heb fasnachfreinio'n allanol) gradd wedi'i masnachfreinio'n allanol;
 - Dull: rhan-amser; a
 - chategori pwnc academaidd: Categoriâu 1a i 11b a chategori 11a, addysg gychwynnol athrawon (AGA) sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC), wedi'u rhannu'n gynradd ac uwchradd.
132. Cyfrifir y cyllid ym mhob cell drwy luosi nifer y gwerthoedd credyd a gyllidir yn y gell honno â'n huned gyllido safonol ar gyfer y categori pwnc academaidd.

133. Mae'r unedau cyllido fesul gwerth credyd ar gyfer pob categori ar gyfer darpariaeth gradd ran-amser ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 wedi'u nodi yn **Atodiad H-B**.
134. Mae cyfanswm y cyllid gradd ran-amser a'r dyraniadau gwerth credyd a gyllidir ym mhob cell ar gyfer pob darparydd yn **Atodiad H-C**.
135. Caiff niferoedd craidd y ddarpariaeth gradd ran-amser eu cyfrifo drwy'r model cyllido. Fe'u cyfrifir drwy ddefnyddio credydau a gyllidir o flwyddyn academiaidd 2024/25 a'u dyrannu i gelloedd cyllido gan ddefnyddio dosbarthiad y credydau a gyllidir ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 a gwerthoedd credyd a recriwtiwyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24. Cymerir data recriwtio o arolwg monitro diwedd blwyddyn ar gyfer ymrestriadau addysg uwch blwyddyn academiaidd 2023/24 (cyhoeddiad [Medr/2024/00](#)).
136. Fel ym mlwyddyn academiaidd 2019/20 i flwyddyn academiaidd 2024/25, caiff twf ei gynnwys yn y model seiliedig ar gredydau drwy drosi'r holl gredydau ffioedd yn unig yn gredydau a gyllidir. Credydau ffioedd yn unig yw credydau lle bo'r darparwyr wedi recriwtio rhagor o gredydau na'r rhai a ariannwyd yn y flwyddyn gynt. Mae hyn yn caniatáu twf mewn credydau a gyllidir i rai darparwyr ac mae hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad H-C**. Mae Tabl H2 yn dangos y dadansoddiad rhwng cyllid craidd a chyllid twf.

Cyllid premiwm – darpariaeth gradd ran-amser

137. Mae'r premiwm mynediad a chadw a'r premiwm cyfrwng Cymraeg wedi'u dyrannu ar gyfer darpariaeth gradd ran-amser ac wedi'u nodi yn Nhabl H2.
- Y premiwm cyfrwng Cymraeg**
 Mae'r premiwm cyfrwng Cymraeg yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at uned cyllido blwyddyn academiaidd 2025/26 ar gyfer modiwlau a gyflawnir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dyraniadau i bob darparydd, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerth credyd HESA blwyddyn academiaidd 2022/23 a blwyddyn academiaidd 2023/24, wedi'u nodi yn Nhabl H3.
 - Y Premiwm Mynediad a Chadw**
 Mae dyraniad y premiwm mynediad a chadw ar gyfer darpariaeth gradd ran-amser yn cynnwys dwy elfen. O ran mynediad, dyfernir premiwm yn gysylltiedig â myfyrwyr o ardaloedd lle ceir cyfranogiad isel mewn addysg uwch, fel y'u diffinnir gan ddau gwintel isaf mesur addysg uwch oedolion y DU, wedi'u cyfrifo o ddata cyfrifiad 2021, a myfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd, fel y'u diffinnir gan ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC19). Defnyddiwyd data Cyfrifiad 2021 am y tro cyntaf yng nghyllid blwyddyn academiaidd 2024/25. Defnyddiwyd data cyfrifiad 2011 yn flaenorol. Wrth echdynnu'r data a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo, nid oed data 2021 ond ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr, felly bydd nifer fach o fyfyrwyr o'r Alban ac o Ogledd Iwerddon wedi'u heithrio o'r cyfrifiad nes diweddarau'r data mewn dyraniadau yn y dyfodol. Gall myfyrwyr unigol ddenu mwy nag un premiwm.

 Nod yr ail elfen yw gwobrwyo am gyfraddau cadw. Rydym wedi dyrannu cyfradd uwch o gyllid ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau nag i fyfyrwyr ar eu blwyddyn gyntaf. Dyrennir y gyfradd uwch hefyd yn gysylltiedig â

myfyrwyr ar gyrsiau un flwyddyn sy'n cwblhau'r cwrs, neu'n ei gwblhau'n rhannol.

I gydnabod bod cyfran y myfyrwyr ehangu mynediad o fewn darparwydd yn effeithio ar y galw am gymorth, mae darparwyr wedi cael eu rhannu i ddau fand yn dibynnu ar y gyfradd a recriwtiwyd ganddynt o ddau gwintel isaf MALIC19 ym mlwyddyn academiaidd 2023/24. Mae darparwyr lle mae myfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd i gyfrif am fwy na 35 y cant o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi'u cynnwys ym mand 1 ac yn derbyn premiwm uwch, ac mae'r rhai lle mae myfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd i gyfrif am 35 y cant neu lai wedi'u cynnwys ym mand 2 ac yn derbyn premiwm is.

Cafodd y fethodoleg ar gyfer y premiwm mynediad a chadw ei hadolygu'n rhan o gam un yn adolygiad cyllido addysgu CCAUC. Arweiniodd yr adolygiad at newidiadau a amlinellwyd yng nghylchlythyr CCAUC [W22/10HE](#), a gafodd eu rhoi ar waith yn gyntaf ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23. Manylir ar ddyraniadau sefydliadol unigol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 yn Nhabl H2.

Cyllid premiwm – pob dull a lefel

138. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae'r premiwm anabledd wedi'i ddyrannu ar gyfer pob dull a lefel astudio. Dyma barhad o'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd er mwyn cynnwys pob dull a lefel astudio, a weithredwyd ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 (Cylchlythyr CCAUC [W19/33HE](#)).
139. Dyrennir cyfradd gyllido fesul myfyriwr cymwys, sef y myfyrwyr hynny sydd wedi'u cofnodi fel rhai sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gofnod myfyrwyr HESA, ac yn ddarostyngedig i'r gofyniad astudio isafswm o 10 credyd (neu 8.3% CALI ar gyfer myfyrwyr ôl-radd). Ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, y gyfradd fesul myfyriwr yw £425. Nodir y dyraniadau yn Nhabl H2 ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd ac yn Nhabl H4 ar gyfer darpariaeth gradd amser llawn.

Cyllid fesul pen – pob dull a lefel a addysgir

140. Dyrennir y swm fesul pen ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 ar gyfradd o £4.72 fesul myfyriwr ar gyfer pob dull a lefel astudio. Mae hyn yn fodd i sicrhau rhyw lefel o gyllid ar gyfer pob myfyriwr a addysgir. Cyfrifwyd taliadau ar sail ymrestriadau cyllidadwy yn ôl data cofnodion myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24, yn ddarostyngedig i isafswm gwerth credyd o 10. Dangosir swm y cyllid fesul pen a ddyrennir i bob darparwydd yn Nhabl H2 ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd, ac yn Nhabl H3 ar gyfer darpariaeth gradd amser llawn.
141. Dangosir cyllid fesul pen ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol, y rhai hynny sy'n rhan o'r cynnydd parhaus mewn lleoedd meddygol a hefyd y lleoedd ychwanegol yn gysylltiedig â Covid-19, ar wahân yn Nhabl H5, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn Nhabl H3. Mae paragraffau 153 i 158 isod yn rhoi gwybodaeth bellach am y lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol.

Dyraniadau cyllid addysgu cyffredinol

142. Mae Tablau H2 a H3 yn dangos y dyraniadau cyllid addysgu cyffredinol. Mae Tabl H2 yn dangos y cyllid ar gyfer darpariaeth gradd ran-amser ar sail credydau, ynghyd â'r cyllid fesul pen a phremiwm ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd.

Mae Tabl H3 yn dangos cyllid y pen a chyllid premiwm ar gyfer darpariaeth gradd amser llawn.

Cynllun hepgor ffioedd rhan-amser

143. Mae ein cynllun hepgor ffioedd gradd rhan-amser yn darparu cyllid i ddarparwyr sy'n hepgor ffioedd myfyrwyr gradd rhan-amser sy'n astudio llai na 30 credyd (h.y. llai na 25% CALI) ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysra'r cynllun. Disgwylir i gylchlythyr y cynllun ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 gael ei gyhoeddi yn haf 2025.

Cymhariaeth o gyllid AU o'r naill flwyddyn i'r nesaf

144. Ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, cymhwyswyd gostyngiad o £11 miliwn pro rata ar draws llinellau cyllido cylchol craidd CCAUC (cyllid addysgu ymchwil cysylltiedig ag ansawdd, ymchwil ôl-radd, CAYC, gradd amser llawn, gradd ran-amser, ôl-radd ar sail credydau a phremiymau addysgu). Gan fod y gostyngiad wedi'i gymhwyso ar sail pro rata i'r cyfanswm ni effeithiwyd ar y cyfraddau cyllido a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r ffrydiau ariannu hyn. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, mae Medr wedi mabwysiadu dull gwahanol ac wedi lleihau'r cyfraddau cyllido a ddefnyddir yn y ffrydiau ariannu amrywiol er mwyn dyrannu cyfanswm y cyllid sydd ar gael. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 108, er mwyn cymharu cyllid a ddyrannwyd ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 â blwyddyn academiaidd 2024/25 gan ystyried y gostyngiad pro rata, rydym wedi cyfrifo beth fyddai'r cyfraddau cyllido o gymhwyso'r gostyngiad pro rata o £11 miliwn i'r cyfraddau cyllido. Mae Tabl H4 yn dangos y cyllid cyffredinol fel y'i dyrannwyd yn wreiddiol ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, fel gostyngiad pro rata i gyfanswm y cyllid, ac felly mae'n cyfateb i'r hyn a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr dyraniadau cyllid blwyddyn academiaidd 2024/25 CCAUC [W24/13HE](#).

Cyllid strategol y Brifysgol Agored yng Nghymru

145. Ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, fel yn y flwyddyn gynt, rydym wedi dyrannu cyllid strategol gwerth £650k i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sef yr un swm ag ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.
146. Mae Tabl H4 yn cynnwys y cyllid strategol ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Cyllid elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD)

147. Mae cyllid elfen berfformio ar gyfer darpariaeth conservatoire wedi'i ddyrannu i Brifysgol De Cymru ar gyfer darpariaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sy'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru. Darperir dyraniad o £585k i gefnogi datblygiadau strategol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ogystal â'r cyllid elfen berfformio a ddarperir drwy'r premiwm pynciau drud a ddangosir yn Nhabl H3. Mae'r cyllid strategol hwn yr un swm â'r llynedd.

Dyraniadau cyllid ymchwil ac addysgu cyffredinol

148. Mae Tabl H4 yn nodi'r dyraniadau i bob darparydd ar gyfer cyllid addysgu, ymchwil ac arloesi, ac yn rhoi cymhariaeth gyffredinol â'r dyraniadau cyllid ym mlwyddyn academiaidd 2024/25.
149. Gan gynnwys y gostyngiad pro rata a gymhwyswyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, mae'r newid i gyfanswm y cyllid o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer prifysgolion yn amrywio rhwng gostyngiad o 8.1% a chynnydd o 10.3%. Mae'r ystod fawr o wahaniaethau mewn cyllid yn deillio'n bennaf o newidiadau i gyfraddau recriwtio myfyrwyr sy'n gymwys i gael eu cynnwys mewn dyraniadau cyllido, ynghyd â'r ffaith bod cyllid lliniaru ar gyfer cyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd a chyllid ôl-radd wedi dod i ben.
150. Nid yw ffigurau blwyddyn academiaidd 2025/26 yn Nhabl H4 yn cynnwys manylion y dyraniadau cyllid ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol. Darperir y dyraniadau hyn yn Nhabl H5.
151. Nid yw'r dyraniadau hyn yn ystyried unrhyw addasiadau cyllido posibl yn ystod y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 a allai gael eu cymhwyso gan Lywodraeth Cymru. Bydd y dyraniadau unigol yn cael eu hadolygu o ganlyniad i unrhyw addasiadau cyllido o'r fath. Hefyd, os yw cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 yn wahanol i swm tybiedig y dyraniad hwn, ceir effaith ar yr adnoddau sydd ar gael ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 ac ar y dyraniadau cysylltiedig.
152. Er mwyn hyrwyddo rhywfaint o hyblygrwydd a chydweithio, cynigir cyfle i ddarparwyr aiddosbarthu credydau darpariaeth gradd ran-amser a gyllidir rhwng darparwyr ar sail niwtral o ran cost. Os bydd darparwyr yn dymuno arfer yr opsiwn hwn, dylent ein hysbysu ar y cyd ynghylch eu bwriadau erbyn 15 Medi 2025 drwy anfon e-bost i YstadegauAU@medr.cymru.

Lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol

153. O flwyddyn academiaidd 2018/19 ymlaen, ariannwyd lleoedd meddygol ychwanegol yng Nghymru, cyfanswm o 40 lle fesul cohort, 20 ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe gyda chohortau pellach yn dechrau yn y blynyddoedd dilynol.
154. O ganlyniad i Covid-19, ar sail untro, ariannwyd 25 o leoedd meddygol ac 1 lle deintyddol ychwanegol ym mlwyddyn academiaidd 2020/21, ynghyd ag 17 o leoedd meddygol a 2 le deintyddol ychwanegol i'w cyllido ym mlwyddyn academiaidd 2021/22, ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae 12 o'r cohort meddygol sy'n dechrau yn

2021/22, sydd ar y cwrs mynediad uniongyrchol pum mlynedd, yn cael eu cyllido fel myfyrwyr sy'n parhau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.

155. Dyrannwyd lleoedd pellach ar sail gylchol. Roedd carfan gychwynnol ychwanegol o 25 o leoedd ym Mhrifysgol Abertawe ym mlwyddyn academiaidd 2021/22 ac un arall ym mlwyddyn academiaidd 2022/23, gan arwain at 200 o ddechreuwyr newydd a pharhawyr yn Abertawe ym mlwyddyn academiaidd 2025/26. Cafwyd hefyd garfan gychwynnol ychwanegol o 15 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ym mlwyddyn academiaidd 2022/23, gan arwain at 60 o fyfyrwyr a ddechreuodd ac a barhaodd ym Mhrifysgol Caerdydd ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
156. Dechreuodd carfan gyntaf Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor yn 2024/25, gyda 60 o fyfyrwyr ar yn dechrau'r cwrs mynediad uniongyrchol pum mlynedd a 20 yn dechrau'r cwrs mynediad pedair blynedd i raddedigion. Yn ogystal â'r myfyrwyr hynny'n parhau i flwyddyn academiaidd 2025/26 a'r cohort newydd yn dechrau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, dechreuodd 10 myfyriwr ychwanegol ar y llwybr mynediad uniongyrchol pum mlynedd. Dangosir y lleoedd meddygol ychwanegol ar gyfer pob prifysgol yn y tabl isod.
157. Mae cyllid ar gyfer y lleoedd hyn ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, sy'n cynnwys cyllid premiwm pynciau drud ar gyfer rhan glinigol y cwrs, premiwm pynciau cost uwch ar gyfer rhan anghlinigol y cwrs a chyllid fesul pen, wedi'i ddangos yn Nhabl H5, a heb ei gynnwys yn Nhabl H3. Mae hyn oherwydd bod y cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 ar gyfer y lleoedd meddygol ychwanegol yn destun llythyr cylch gwaith ar wahân. Mae nifer y lleoedd meddygol ychwanegol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 yn dal i fod yn amodol ar gadarnhad Llywodraeth Cymru, felly dylid ystyried y dyraniadau cyllid yn Nhabl H5 fel dyraniadau dros dro. Dylid nodi na wnaeth y gostyngiad pro rata o £11 miliwn ym mlwyddyn academiaidd 2024/25 na'r gostyngiadau a gymhwyswyd i'r cyfraddau cyllido ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 effeithio ar y cyllid ar gyfer y lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol, felly mae'r cyfraddau cyllido'n aros ar lefelau blwyddyn academiaidd 2023/24. Mae hyn yn golygu bod y lleoedd ychwanegol yn cael eu cyllido ar gyfraddau uwch o gyllid premiwm a chyllid fesul pen na'r dyraniadau craidd ar gyfer y premiwm pynciau drud a'r premiwm pynciau cost uwch ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
158. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o leoedd meddygol a deintyddol i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau a myfyrwyr sy'n parhau.

Prifysgol	Cylchol	Blwyddyn academiaidd							
		2018/ 2019	2019/ 2020	2020/ 2021	2021/ 2022	2022/ 2023	2023/ 2024	2024/ 2025	2025/ 2026
Prifysgol Caerdydd									
Meddygol gwreiddiol	Ydy	20	40	60	80	100	100	100	100
Meddygol Covid-19 Ychwanegol ¹	Nac ydy			25	37	37	37	37	12
Deintyddol Covid-19 Ychwanegol	Nac ydy			1	3	3	3	3	2
Meddygol Covid-19 Ychwanegol ²	Nac ydy				5	5	5	5	
Meddygol newydd 2022/23	Ydy					15	30	45	60
Cyfanswm Prifysgol Caerdydd		20	40	86	125	160	175	190	174

Prifysgol	Cylchol	Blwyddyn academiaidd							
		2018/ 2019	2019/ 2020	2020/ 2021	2021/ 2022	2022/ 2023	2023/ 2024	2024/ 2025	2025/ 2026
Prifysgol Abertawe									
Meddygol gwreiddiol	Ydy	20	40	60	80	80	80	80	80
Meddygol newydd 2021/22	Ydy				25	50	75	100	100
Meddygol newydd 2022/23	Ydy					25	50	75	100
Cyfanswm Prifysgol Abertawe		20	40	60	105	155	205	255	280
Prifysgol Bangor									
Ysgol Feddygol Gogledd Cymru	Ydy							80	170
Cyfanswm cyffredinol Cymru		40	80	146	230	315	380	525	624

Nodiadau: 1 = cwrs 5 mlynedd; 2 = cwrs 4 blynedd ar y llwybr mynediad i raddedigion.

Cyllidebau strategol

159. Etifeddodd Medr 49 o linellau cyllideb strategol gan CCAUC a Llywodraeth Cymru.
160. Er mwyn galluogi dull strategol sy'n canolbwyntio mwy ar addysg drydyddol, mae'r tair llinell gyllideb ar wahân hyn wedi cael eu cyfuno i greu nifer llai o botiau strategol. Er na fydd hyn o reidrwydd yn effeithio ar ddyraniadau sefydliadol ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, yn unol â'r ymrwymiad i sefydlogrwydd ar gyfer cyfnod sylfaen ein Cynllun Strategol, mae'n arwydd o symudiad tuag at ymagwedd addysg drydyddol, gan chwalu rhwystrau rhwng rhannau o'r sector addysg drydyddol wrth ddyrannu cyllid yn y dyfodol.
161. Yn y flwyddyn gyntaf hon, mae pob un o'r cyllidebau strategol lefel uchel wedi'u cyfrifo drwy adio llinellau cyllideb presennol at ei gilydd. Mae'r tablau canlynol yn nodi'r cyllidebau strategol lefel uchel newydd, y gweithgareddau strategol sy'n perthyn iddynt ynghyd â disgrifiad, cyllideb lefel gweithgarwch yn seiliedig ar flwyddyn academiaidd 2024/25 (a allai newid) ac yn nodi a yw dyraniadau sefydliadol wedi'u cynnwys yn atodiadau'r cyhoeddiad hwn, neu am gael eu cynnwys mewn cyhoeddiad diweddarach.

Mynediad a llesiant

162. Mae'r gyllideb strategol yn ymgorffori'r dyraniadau presennol canlynol:

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
Ymestyn yn Ehangach (AU)	Wedi'i dyrannu i dair partneriaeth ranbarthol ar gyfer gweithgarwch i gynyddu cyfranogiad mewn AU ymhlith grwpiau â blaenoriaeth drwy godi dyheadau a sgiliau addysgol.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Cymorth mentora (AU)	Wedi'i dyrannu drwy Ymgynraedd yn Ehangach ar gyfer cynllun sy'n cysylltu myfyrwyr AU â dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Llesiant ac iechyd (AU ac AB)	Wedi'i dyrannu i gefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, gan gynnwys	Yn destun cyhoeddiad diweddarach

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
	strategaethau diogelu rhag hunanladdiad mewn AU. Hefyd yn cynnwys cyfraniad at yr adnodd ar-lein Student Space.	
Llesiant a chaledi (AU ac AB)	Wedi'i dyrannu ar gyfer cymorth iechyd a llesiant, gan gynnwys capasiti ar gyfer cymorth caledi i fyfyrwyr/dysgwyr â'r mwyaf o angen.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Prosiect iechyd, llesiant ac iechyd meddwl (AU ac AB)	Prosiectau i gefnogi datblygiad fframwaith iechyd meddwl cenedlaethol.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Cydraddoldeb hiliol (AU ac AB)	Yn cefnogi darparwyr trydyddol mewn gweithgarwch i greu Cymru wrth-hiliol.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Urddas mislif (AB)	Mae'r cyllid hwn yn rhoi mynediad i bob dysgwr cymwys mewn sefydliadau AB at gynnyrch mislif. Cyflwynwyd y gyllideb hon i sicrhau cydraddoldeb â phobl ifanc 16-18 oed mewn ysgolion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth drwy gyllidebau ysgol.	
Pontio Blwyddyn 11 (AB a'r chweched dosbarth mewn ysgolion)	Defnyddir y cyllid hwn i annog cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r holl lwybrau dysgu sydd ar gael cyn i bobl 16 oed wneud penderfyniad am eu cam nesaf mewn addysg.	
Cyllid adferiad a chynnydd dysgwyr (AB)	Defnyddir y cyllid hwn i roi darpariaeth addysgu ychwanegol i ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio ac sy'n profi problemau presenoldeb, gan alluogi iddynt ddal i fyny ag unrhyw gynnwys a fethwyd, fel effaith barhaus ar ôl Covid.	Atodiad LA1 ac Atodiad FE1

163. Yn flaenorol, derbyniwyd cyfanswm o £26.469 miliwn o gyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn, gan gynnwys rhai mân weithgareddau a gwblhawyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25 ac nad ydynt felly wedi'u rhestru uchod. Ar gyfer blwyddyn academiaidd cafwyd cynnydd o £2 filiwn arall ar gyfer hyn, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn â blaenoriaeth ac sydd wedi deryn lefelau uwch o gyllid, gan godi'r cyfanswm i £28.469 miliwn.

Cyflogadwyedd a sgiliau

164. Mae'r gyllideb strategol hon yn cynnwys y dyraniadau canlynol ar hyn o bryd:

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr (AU)	Mae'r cyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr yn galluogi darparwyr addysg uwch i roi cymorth cyflogadwyedd wedi'i arwain gan fyfyrwyr i fyfyrwyr o grwpiau tangynrychioledig ac/neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, er mwyn helpu i roi'r offer iddynt sicrhau canlyniad cadarnhaol wrth raddio.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Biwro Cyflogaeth (AB)	Mae'r Biwroau Cyflogaeth a Menter yn cefnogi dysgwyr drwy roi cyngor ac arweiniad iddynt a	Yn destun cyhoeddiad diweddarach

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
	datblygu sgiliau cyflogadwyedd a menter, gyda'r nod o sicrhau canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i ddysgwyr drwy weithio gyda chyflogwyr yn y rhanbarth.	
Entrepreneuriaeth leuenctid (FE)	Mae'r cyllid menter yn helpu dysgwyr i bontio i hunangyflogaeth drwy godi ymwybyddiaeth ynghylch entrepreneuriaeth a'u paratoi i ddysgu am fusnes a hunangyflogaeth. Cyflwynir y rhaglen gan y Biwroau Cyflogaeth a Menter, gyda'r nod o sicrhau canlyniad cadarnhaol i ddysgwyr ym maes hunangyflogaeth.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach

165. Yn flaenorol, derbyniodd y prosiectau hyn gyfanswm o £3.320 miliwn o gyllid. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 rydym yn cynnal y lefelau cyllido yn unol â'r gyllideb arian parod wastad a ddarparwyd.

Ymchwil ac arloesi

166. Mae'r gyllideb strategol hon yn cynnwys y dyraniadau canlynol ar hyn o bryd:

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) (addysg uwch)	Cyfraniad Medr at gostau datblygu chynnal yr ymarfer rheolaidd ledled y DU i asesu ansawdd ymchwil.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Cymdeithas Ddysgedig Cymru (AU)	Cyllid i academi genedlaethol Cymru er mwyn creu gweithgareddau a chryfhau capasiti ymchwil, yn enwedig ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) (AU)	Mae WIN yn cefnogi cydweithio a gwaith i adeiladu capasiti, gan ganolbwyntio ar gynyddu gallu Cymru i gystadlu ym maes ymchwil ac arloesi.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Cydlynu Concordatau Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) (HE)	Cyfraniad Medr tuag at gostau cefnogi'r concordatau ymchwil ac arloesi drwy'r DU	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Canolfan Gydlyn Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (NCCPE) (AU)	Cyfraniad Medr at gostau gweithgarwch drwy'r DU sy'n hyrwyddo ac yn gwella ymgysylltiad y cyhoedd ag ymchwil.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Addysg Uwch Cymru Brwsel (AUCB) (AU)	Wedi'i gyd-ariannu â'r prifysgolion, mae AUCB yn codi proffil Cymru ac yn cefnogi adeiladu rhwydweithiau ar gyfer rhaglenni ariannu ymchwil Ewropeaidd.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Prifysgolion y DU Rhyngwladol (UUKi) (AU)	Cyfraniad Medr at gostau gweithgarwch ledled y DU i hyrwyddo addysg uwch ac ymchwil y DU yn fyd-eang.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.
Crwsibl Cymru (AU)	Wedi'i chyd-ariannu â phrifysgolion partner, rhaglen ddatblygu i ymchwilwyr ar ganol eu gyrfa.	Yn destun grant a ddyfermir ar wahân.

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
The Conversation (AU)	Cyllid i godi proffil ymchwil Cymru o fewn y fenter ledled y DU sy'n darparu ffynhonnell annibynnol o ddadansoddiad newyddion a sylwadau deallus wedi'u hysgrifennu gan arbenigwyr academiaidd, gan weithio gyda newyddiadurwyr proffesiynol.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân.
Gwasg Prifysgol Cymru (AU)	Mae'r cyllid yn cefnogi cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â maes Astudiaethau Cymru, sy'n bwysig o safbwynt diwylliannol, gyda phwyslais ar greu'r rhain yn gyhoeddiadau mynediad agored fel eu bod ar gael i bawb.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân.
Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (AU)	Yn golygu bod modd cynnig, ar raddfa Cymru gyfan, hyfforddiant a gweithgareddau datblygu drwy Bartneriaeth Hyfforddi Doethuriaethau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân.
Partneriaethau ymgysylltu dinesig rhanbarthol (AU)	Yn ariannu tair partneriaeth ranbarthol er mwyn ffurfio cytundebau ymgysylltu dinesig ffurfiol a gwella gwaith wedi'i gydlynw er mwyn bodloni anghenion cymunedau lleol.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân.
CronfaAmgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (AU)	Cyllid ar gyfer prifysgolion a gweithgarwch ar y cyd i gefnogi adeiladu diwylliannau ymchwil ac arloesi cadarnhaol.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach

167. Yn flaenorol, derbyniodd y prosiectau hyn gyfanswm o £1,733,412. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, cyflwynir cynnydd o £266,588 i'r gyllideb hon er mwyn cyrraedd £2,000,000. Bydd hyn yn caniatáu ymestyn gweithgareddau i gynnwys rhannau o'r sector trydyddol y tu hwnt i brifysgol, ac i adeiladu ar gynlluniau peilot llwyddiannus.

Y dysgwr a'r gweithlu

168. Mae'r gyllideb strategol hon yn cynnwys y dyraniadau canlynol ar hyn o bryd:

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
AU Ymlaen (AU)	Yn ariannu prosiectau sy'n gwella ansawdd addysg uwch.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân
Gwella Ansawdd (AU ac AB)	Cyllid ar gyfer gweithgarwch adolygu a gwella ansawdd.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
NUS Cymru - ymgysylltiad â dysgwyr/myfyrwyr (AU ac AB)	Yn galluogi NUS Cymru i roi cymorth ychwanegol i undebau myfyrwyr a darparwyr trydyddol er mwyn cryfhau llais y dysgwr a gweithgarwch ymgysylltu.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân
Cronfa Dysgu Proffesiynol (AB)	Cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol i gefnogi staff addysgu addysg bellach, gan gynnwys lleoliadau diwydiannol.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Cymhellion Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) (AB)	Cyllid i ysgogi pobl i astudio'r cymhwyster TAR (AB) er mwyn creu cyflenwad o dalent i ymuno â'r gweithlu addysg bellach.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Adolygiad llwyth gwaith (AB)	Cyllid i gyflawni mentrau i leihau a lliniaru baich gwaith darlithwyr addysg bellach.	Yn destun cyhoeddiad diweddarach

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
Cyllid refeniw dysgu digidol (AU, AB a phrentisiaethau)	Cyllid i gefnogi datblygiad gallu digidol ac arloesedd, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artifisial (AI).	Yn destun cyhoeddiad diweddarach
Gwybodaeth gyhoeddus (AU)	Cyfraniad Medr at gostau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr (NSS) a gynhelir drwy'r DU a'r wefan Darganfod Prifysgol.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân
Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (AB)	Cyllid i gefnogi cydweithio a gwelliant parhaus mewn dysgu oedolion yn y gymuned ac ESOL.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân

169. Yn flaenorol, derbyniwyd cyfanswm o £8,254,050 o gyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn, gan gynnwys rhai mân weithgareddau a gwblhawyd ym mlwyddyn academiaidd 2024/25 ac nad ydynt felly wedi'u rhestru uchod. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 mae Medr yn cynnal lefelau cyllido yn unol â'r gyllideb arian parod wastad a ddarparwyd.

Data a thechnoleg

170. Mae'r gyllideb strategol hon yn cynnwys y dyraniadau canlynol ar hyn o bryd:

Gweithgarwch	Disgrifiad	Dyraniadau sefydliadol
Ymagwedd Dryloyw at Gostio (TRAC) (AU)	Cyfraniad Medr at gostau casglu data ledled y DU.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân
Trawsnewid casgliadau data HESA (AU)	Cyfraniad Medr at gostau casglu data ledled y DU.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân
Jisc (AU ac AB)	Cyllid ar gyfer cysylltiadau rhwydwaith a datblygiadau'n gysylltiedig â thechnoleg, a chyfraniad Medr at gostau swydd ar gyfer y DU gyfan sy'n darparu arbenigedd i gefnogi'r cyrff ariannu wrth weithio gyda Jisc.	Yn destun grant a ddyfernir ar wahân

171. Yn flaenorol, derbyniodd y prosiectau hyn gyfanswm o £3,793,470. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 rydym yn cynnal y lefelau cyllido yn unol â'r gyllideb arian parod wastad a ddarparwyd.

Datblygiadau strategol Medr

172. Wrth inni geisio alinio ein polisiâu ac annog arferion cydweithredol ar draws pob rhan o addysg drydyddol, cymeradwydd y Bwrdd gyllideb o tua £3.5 miliwn sy'n darparu capasiti ar gyfer treialu a gwerthuso dulliau newydd arloesol. Bydd natur y gweithgarwch hwn yn tarddu o broses y cynllun gweithredol, ond gallai gynnwys y canlynol er enghraifft:

- rhoi cymhellion i gydweithio a chyd-amserlennu ar draws pob darparydd trydyddol o fewn rhanbarth
- uwchsgilio drwy gyflwyno darpariaeth arloesol yn unol â'r anghenion cyflogaeth a sgiliau diweddaraf
- cefnogaeth ar gyfer gweithgarwch llais dysgwyr.

Telerau a thaliadau'r grant a ffynonellau data

Telerau'r grant

Prentisiaethau

173. Esbonnir y sail ar gyfer darparu cyllid craidd yn eich contract ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Darpariaeth awdurdod lleol (y chweched dosbarth mewn ysgolion a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL))

174. Esbonnir y sail ar gyfer darparu cyllid craidd yn eich llythyr dyfarnu grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Darpariaeth addysg bellach

175. Esbonnir y sail ar gyfer darparu cyllid craidd yn y Telerau ac Amodau Cyllid rhwng Medr a darparwyr unigol. Cyhoeddir y Telerau ac Amodau Cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 r ddiwedd Gorffennaf 2025 ar yr hwyraf.
176. Gall Medr addasu'r cyllid a ddyfernir i sefydliadau ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/26 i ystyried tan-recriwtio yn erbyn y dyraniadau rhan-amser ac unrhyw gyllidebau strategol yn unol ag unrhyw ganllawiau ychwanegol. Os ceir unrhyw achos o dangyflawni bydd cyllid yn cael ei hawlio'n ôl yn dilyn yr archwiliad terfynol o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).
177. Bydd trefniadau monitro ac adhawlio tebyg yn berthnasol i gyllid y Gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r Gronfa Urddas Mislif. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y dogfennau canllaw sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr.

Darpariaeth addysg uwch

178. Esbonnir y sail ar gyfer darparu cyllid ymchwil ac addysgu i ddarparwyr addysg uwch yn y Telerau ac Amodau Cyllid a drosglwyddwyd i Medr, rhwng CCAUC a darparwyr unigol. Ar gyfer darparwyr addysg bellach, esbonnir hyn hefyd yn y Telerau ac Amodau Cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, y byddwn yn eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025 fan bellaf.
179. Gall Medr addasu'r cyllid a ddyfernir i sefydliadau ar ddiwedd sesiwn blwyddyn academiaidd 2025/26 i roi cyfrif am dan-recriwtio yn erbyn y niferoedd a ariannwyd ar gyfer cyrsiau gradd rhan-amser, ac a ddyrannwyd drwy gyllid yn seiliedig ar gredydau gradd ran-amser. Bydd Medr yn monitro'r niferoedd a gyflawnir drwy ddefnyddio'r credydau gwirioneddol a gwblheir ar ddiwedd y flwyddyn. Ni fydd y credydau a gwblheir yn cynnwys unrhyw gredydau'n gysylltiedig â modiwlau lle na chyflawnwyd yr holl weithdrefnau asesu. Bydd y gwahaniaeth rhwng y niferoedd a gwblhawyd a'r niferoedd a ariannwyd yn cael ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cell gyllido a'i drosi'n gyllid cyfatebol drwy defnyddio'r uned gyllido safonol berthnasol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26.

Ffynonellau data

Chweched dosbarth awdurdodau lleol:

180. Mae dyraniadau chweched dosbarth awdurdodau lleol wedi'u cyfrifo drwy ddefnyddio Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a datganiadau niferoedd ôl-16 ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2022/23.

ACL awdurdodau lleol:

181. Cyfrifwyd dyraniadau ACL awdurdodau lleol ar sail data'r ONS.

Colegau addysg bellach:

182. Cyfrifir dyraniadau i golegau drwy defnyddio data CYBLD Ionawr 2024 ac LLWR o flwyddyn academiaidd 2022/23 a blwyddyn academiaidd 2023/24.

Addysg uwch:

183. Mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid wedi'i ddarparu a'i wirio gan ddarparwyr. Caniatwyd diwygio data a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid, gan fod cofnod myfyrwyr newydd wedi cael ei gyflwyno gan HESA yn 2022/23, ac mae newidiadau i gasgliadau data yn dal i fagu gwreiddiau.
184. Cymerwyd y data ar gyfer cyllid addysgu ar sail credydau o ddata monitro diwedd blwyddyn a echdynnwyd gan Medr o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24.
185. Mae dyraniadau fesul pen a dyraniadau premiwm wedi'u seilio ar ddata cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24.
186. Mae dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg wedi'u seilio ar gyfartaledd data gwerth credyd cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23 a blwyddyn academiaidd 2023/24.
187. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer ymchwil ôl-radd wedi'u seilio ar ddata cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24.
188. Cymerwyd y data ar gyfer Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd (QR) o'r datganiadau i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, a chanlyniadau hynny, a chofnod cyllid HESA o flwyddyn academiaidd 2019-20 i flwyddyn academiaidd 2021/22.
189. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'u seilio ar ddata arolwg HE-BCI HESA o flwyddyn academiaidd 2021/22 i 2023/24, data cofnodion staff HESA o flwyddyn academiaidd 2021/22 i flwyddyn academiaidd 2023/24, ac ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru, data cofnod myfyrwyr HESA o flwyddyn academiaidd 2021/22 i flwyddyn academiaidd 2023/24.

Talu grant

190. Ym mlwyddyn academiaidd 2025/26, gall darparwyr ddisgwyl i daliadau gyd-fynd â phroffiliau'r flwyddyn flaenorol.
